Llywodraeth Cymru
Welsh Government







# Cymru

## Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae

Canllawiau Statudol

Diweddarwyd
Ionawr 2025

**llyw.cymru**

# Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae

**Cynulleidfa**

Pawb sydd â diddordeb mewn chwarae ac sydd â rôl o ran asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, yn enwedig awdurdodau lleol.

**Trosolwg**

Mae **'Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae'** yn Ganllawiau Statudol i awdurdodau ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd. Cânt eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru i roi manylion am y dyletswyddau ar awdurdodau lleol o dan adran 11, Cyfleoedd Chwarae, o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (cyfleoedd chwarae i blant).

**Newidiadau**

Mae'r rhain yn Ganllawiau Statudol a ddiweddarwyd yn sgil yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Chwarae, er mwyn helpu awdurdodau lleol i fodloni gofynion Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012. Mae'r fersiwn hon yn disodli'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014 a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru WGC 004/2021 a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2021.

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei diweddaru i gynnwys gwybodaeth gyfoes ynghylch Chwarae a meysydd polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

**Camau i'w cymryd**

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i Weinidogion Cymru bob tair blynedd yn ogystal â Chynllun Gweithredu Chwarae ac Adroddiad Cynnydd blynyddol.

Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi ar eu gwefannau grynodeb o'u Hasesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, y mae'n rhaid iddo gynnwys canlyniadau'r asesiad a nodi'r camau gweithredu y maent yn bwriadu eu cymryd i sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

**Gwybodaeth bellach**

Mae'r Canllawiau hyn yn cynnwys amserlen ar gyfer cynnal yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a pharatoi'r dogfennau cysylltiedig.

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau at:

Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: gofalplantachwarae@llyw.cymru

**Dogfennau cysylltiedig**

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012

Darperir y Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a thempled y Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae er mwyn helpu awdurdodau lleol i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol ynghylch chwarae plant, ynghyd â phecyn cymorth a ddatblygwyd ar y cyd â Chwarae Cymru.

Nod y Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yw helpu awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'u cynnal, a datblygu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae. Fe'i lluniwyd i weithio ar y cyd â'r canllawiau statudol hyn, sy'n cynnwys dolenni uniongyrchol i adnoddau perthnasol er mwyn helpu awdurdodau lleol ymhellach.

# Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog **1**

1. Cyflwyniad **2**

2. Cefndir **3**

3. Ymgynghori, cyfranogi ac ymgysylltu **10**

4. Fframwaith Polisi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – asesu digonolrwydd **11**
    - 4.1 Cynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae **13**
    - 4.2 Gweithio mewn partneriaeth a chydweithio **15**
    - 4.3 Darparu adnoddau a manteisio i'r eithaf arnynt **16**

5. Materion y mae angen eu hystyried wrth asesu a sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae **17**
    - 5.1 Mater A **17**
    - 5.2 Mater B **18**
    - 5.3 Mater C **18**
    - 5.4 Mater Ch **20**
    - 5.5 Mater D **21**
    - 5.6 Mater Dd **21**
    - 5.7 Mater E **24**
    - 5.8 Mater F **24**
    - 5.9 Mater Ff **26**

6. Datblygiadau yn y dyfodol **31**

Atodiad A: Polisi perthnasol Llywodraeth Cymru **32**

Atodiad B: Deddfwriaeth **38**

Atodiad C: Geirfa **41**


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG50581, ISBN digidol 978-1-83715-597-2

# Rhagair gan y Gweinidog

**Ymfalchïaf o hyd, a hynny'n gwbl gyfiawn, yn y ffaith mai Llywodraeth Cymru oedd y Llywodraeth gyntaf yn y byd i ddeddfu dros hawl plant i chwarae. Mae dros ddeng mlynedd wedi mynd heibio ers inni gychwyn ein deddfwriaeth ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, a oedd yn arwain y byd, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc Cymru yn mwynhau amrywiaeth eang o gyfleoedd heriol a diddorol i chwarae.**

Rydym eisiau Cymru i bob plentyn – Cymru lle y gall babanod, plant ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau ffynnu, drwy gyfleoedd a phrofiadau wedi'u cyfoethogi. Cymru sy'n lle gwych i dyfu i fyny, byw a gweithio nawr ac yn y dyfodol. Credwn yn gryf ym mhwysigrwydd hawl plant i chwarae a'r manteision i'w hiechyd, eu hapusrwydd a'u llesiant.

Mae ein profiadau yn ystod pandemig COVID-19 wedi dangos pa mor allweddol yw chwarae a'r cyfle i gael profiadau chwaraeus i fywydau plant. Caiff y fersiwn ddiwygiedig hon o'n canllawiau statudol ei hategu gan becyn cymorth i helpu awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i bob plentyn, wrth inni barhau i hyrwyddo a diogelu hawl plant i chwarae.

Bu'n bleser gennym groesawu Adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol, ac mae ein hymateb i'r argymhellion wedi pennu ein cyfeiriad tuag at wireddu ein gweledigaeth o Gymru fel gwlad lle mae cyfle i chwarae.

Hoffwn ddiolch i Chwarae Cymru am eu cefnogaeth barhaus ar gyfer chwarae plant ac i'n hawdurdodau lleol, rhanddeiliaid allweddol eraill a'r holl unigolion a sefydliadau hynny sy'n gweithio yn y sector sydd, drwy eu rolau, yn parhau i hyrwyddo hawl plant i chwarae.





**Dawn Bowden AS**
Y Gweinidog Plant
a Gofal Cymdeithasol

# 1. Cyflwyniad

**Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwerth mawr ar chwarae ac ar ei bwysigrwydd i fywydau plant yn ein cymdeithas. Credwn fod gan blant hawl sylfaenol i allu chwarae, a bod chwarae'n rhan annatod o'u mwynhad mewn bywyd ac yn cyfrannu at eu llesiant.**

Mae chwarae yn hollbwysig i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. I'r plant eu hunain, mae chwarae yn un o'r agweddau pwysicaf ar eu bywydau. Maent yn gwerthfawrogi amser, rhyddid a lleoedd o safon i chwarae. Pan ofynnir i blant nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt, maent yn gyson yn cyfeirio at chwarae a chyfleoedd i ymgynnull â'u ffrindiau. Pan fyddant yn chwarae, mae plant yn cyfrannu at eu llesiant uniongyrchol a'u datblygiad eu hunain.

Ceir corff sefydledig o dystiolaeth gadarn sy'n dangos y cyfraniad y gall chwarae, yn enwedig chwarae hunandrefnedig, ei wneud i lesiant plant yn uniongyrchol ac yn yr hirdymor, i'w hiechyd corfforol ac i'w hiechyd meddwl a'u gwydnwch. Er enghraifft:

- Erthygl 31: Adroddiad Sbotolau – Comisiynydd Plant Cymru
- Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru 2022 – Chwarae Cymru

Gall plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn tlodi wynebu rhwystrau ariannol, ymarferol ac amgylcheddol i gael cyfleoedd i chwarae. Rydym am i Gymru fod yn wlad sy'n galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau, gan gynnwys yr hawl i chwarae, sicrhau llesiant da a chyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). Gall chwarae hefyd yn fod yn fodd i leihau anghydraddoldebau rhwng plant sy'n byw mewn teuluoedd a all fforddio darpariaeth hamdden gostus a'r rhai na allant ei fforddio, a thrwy hynny leihau tlodi profiadau i bob plentyn.



# 2. Cefndir

## Datblygiad polisi chwarae yng Nghymru

Er mwyn sicrhau'r canlyniadau i blant y mae chwarae yn eu cynnig, aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd ati ar y cyd â sefydliadau rhanddeiliaid i greu'r 'Polisi Chwarae' yn 2002.

Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ffurfiol fel y sail dros ei phrosesau llunio polisïau yn ymwneud â phlant ac ymrwymodd i wireddu egwyddorion CCUHP i bob plentyn a pherson ifanc. Sefydlodd Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae amlddisgyblaethol i ddatblygu argymhellion ynghylch sut y dylai chwarae ddatblygu yng Nghymru.

Yn 2006, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Chwarae yng Nghymru', ei Chynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae. Nododd y cynllun sut y byddai'r egwyddorion a amlinellwyd yn y Polisi Chwarae yn cael eu rhoi ar waith. Gwnaeth ddwyn ynghyd y cymorth a oedd yn bodoli eisoes ar gyfer chwarae (prosiectau a darpariaeth) a phennu'r cyfeiriad at y dyfodol. Roedd hefyd yn cynnwys set o gamau gweithredu allweddol ac amserlen ar gyfer cyflawni.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er mwyn cyflawni'r nod o greu Cymru lle mae cyfle i chwarae a darparu cyfleoedd ardderchog i'n plant chwarae, ei bod yn angenrheidiol i awdurdodau lleol, eu partneriaid a rhanddeiliaid eraill hefyd weithio tuag at y diben hwn. Felly, cafodd adran ar "Cyfleoedd Chwarae" ei chynnwys yn y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a gafodd gydsyniad brenhinol yn 2010.

Mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn llunio ei pholisïau ynghylch plant yn seiliedig ar hawliau yn golygu bod modd i'r Ddyletswydd



Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i fynegi'n benodol werth annatod chwarae fel hawl, ochr yn ochr â gwerth mwy cyfrannol ei rôl mewn agendâu polisi eraill megis mynd i'r afael â thlodi plant, iechyd a llesiant, dysgu a datblygiad, a chydlyniant cymunedol.

Mae tair erthygl sy'n ymwneud yn benodol â'r ddyletswydd hon:

- **Erthygl 31 (Hamdden, chwarae a diwylliant):** Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, artistig a gweithgareddau hamdden eraill.
- **Erthygl 15 (Rhyddid i ymgysylltu):** Mae gan blant yr hawl i gyfarfod â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau.
- **Erthygl 12 (Parchu safbwyntiau'r plentyn):** Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn ar yr hyn a ddylai ddigwydd ac i'r farn honno gael ei hystyried.

Yn 2013, yn sgil pryderon am y gydnabyddiaeth wael a roddir gan Wladwriaethau i'r hawliau yn Erthygl 31, cyhoeddodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn Sylw Cyffredinol rhif 17 i godi eu pwysigrwydd a sicrhau mwy o atebolrwydd.

Mae sylw cyffredinol rhif 17 yn rhoi arweiniad ar y mesurau deddfwriaethol, barnwrol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol sydd eu hangen i roi Erthygl 31 ar waith i bob plentyn yn ddiwahân. Mae'n annog Gwladwriaethau'n gryf i ystyried cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau'r hawliau o dan Erthygl 31 ar gyfer pob plentyn. Dylai deddfwriaeth o'r fath ymdrin ag egwyddor digonolrwydd – dylai pob plentyn gael digon o amser a lle i arfer yr hawliau hyn.

Yn 2014, nododd Llywodraeth Cymru y weledigaeth ar gyfer chwarae i blant yng Nghymru drwy gyhoeddi'r canllawiau statudol 'Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae' i awdurdodau lleol ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd.

Ers deddfu dros chwarae i blant fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, rhwng 2019 a 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad manwl a chydweithredol o'i gwaith ar y polisi chwarae ac ystyriodd y cynnydd a wnaed i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae. Roedd i'r adolygiad ddau nod:

- asesu gwaith Llywodraeth Cymru yn ymwneud â pholisïau chwarae
- helpu Llywodraeth Cymru i lunio sut mae'n datblygu ac yn hyrwyddo'r agenda chwarae.

Gwnaeth yr adolygiad argymhellion allweddol, gan awgrymu cerrig milltir i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth adeiladu ar y cynnydd a wnaed i fod yn wlad lle mae cyfle i chwarae, sy'n rhoi cyfleoedd digonol i blant a phobl ifanc chwarae.

Ym mis Chwefror 2023, croesawodd Llywodraeth Cymru Adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Chwarae, ac ym mis Hydref 2023 cyhoeddodd ymateb i argymhellion y Grŵp Llywio, a oedd yn amlinellu'r camau gweithredu y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i roi'r argymhellion ar waith.

## Sail gyfreithiol

### Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (y 'Mesur')

Mae Pennod 2, Adran 11 o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfleoedd chwarae.

## Adran 11
## Dyletswydd awdurdodau lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant

**(1) Rhaid i awdurdod lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn ei ardal yn unol â rheoliadau.**

**(2) Dyletswydd awdurdodau lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant:**

a. y materion sydd i'w hystyried wrth asesu digonolrwydd.
b. y dyddiad erbyn pryd y mae asesiad cyntaf i'w gyflawni.
c. amlder asesiadau.
d. adolygu asesiadau.
e. cyhoeddi asesiadau.

**Cychwynnwyd ar 1 Gorffennaf 2014 (3)**
Rhaid i awdurdod lleol sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn ei ardal, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gan roi sylw i'w asesiad o dan is-adran (1).

**Cychwynnwyd ar 1 Gorffennaf 2014 (4)**
Rhaid i awdurdod lleol –

a. gyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae yn ardal yr awdurdod i blant, a;
b. cadw'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn gyfredol

**(5) Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw**

Ymysg pethau erail) –

a. i anghenion plant sy'n bobl anabl (o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (p. 50);
b. i anghenion plant o wahanol oedrannau.

**(6) Yn yr adran hon –**

mae "chwarae" yn cynnwys unrhyw weithgaredd hamdden;

ystyr "digonol", mewn perthynas â chyfleoedd chwarae, yw digonol o ran nifer ac ansawdd.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru gychwyn y ddyletswydd mewn dwy ran. Roedd y rhan gyntaf yn ymdrin â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu cyfleoedd chwarae digonol, sef adrannau 11(1); 11(2); 11(5); a 11(6), a gychwynnwyd yn 2012.

Roedd ail ran y ddyletswydd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gan roi sylw i'w asesiadau 11(3); roedd hefyd yn rhoi dyletswydd arnynt i gyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd ac i ddiweddaru'r wybodaeth honno 11(4).

Cychwynnodd y ddyletswydd hon ar 01 Gorffennaf 2014, ar ôl i'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynlluniau Gweithredu Chwarae awdurdodau lleol i wella cyfleoedd chwarae gael eu hystyried yn llawn.

Nod y canllawiau statudol hyn yw:

- Helpu awdurdodau lleol i gwblhau eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'u Cynlluniau Gweithredu Chwarae er mwyn sicrhau digon o gyfleoedd o'r fath. Mae'r Canllawiau'n nodi diben y ddyletswydd a'r materion i'w hystyried wrth asesu digonolrwydd, fel y'u nodir o dan adran 10. Mae'r Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar ei newydd wedd hefyd ar gael bellach i'w helpu i gynnal yr asesiadau.
- helpu awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Byddant yn gwneud hynny drwy roi eu Cynlluniau Gweithredu Chwarae ar waith, y mae'n ofynnol iddynt gynnal yr agweddau cryf ar y ddarpariaeth a gwella'r diffygion a nodwyd wrth iddynt gynnal eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

O dan Adran 71 o'r Mesur, ystyr "plentyn" ("child") yw person nad yw wedi cael ei ben-blwydd yn 18 oed.

Cyhoeddir y canllawiau hyn yn unol ag Adran 17(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru), sy'n nodi:

> *Wrth iddo arfer ei swyddogaethau o dan **adran 11** (Dyletswyddau awdurdodau lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant) ac **adran 12** (Plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdod lleol), **rhaid** i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru.*

Ac yn unol ag Adran 70 (canllawiau) o'r Mesur, sy'n nodi:

(1) Mae'r adran hon yn cael effaith o ran unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn i gyrff y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau.

(2) **O ran Gweinidogion Cymru –**

- **a.** cânt roi canllawiau i gyrff yn gyffredinol neu i un corff penodol neu i gyrff penodol;
- **b.** cânt ddyroddi canllawiau gwahanol i gyrff gwahanol neu mewn perthynas â hwy;
- **c.** rhaid iddynt, cyn iddynt ddyroddi canllawiau, ymgynghori â'r cyrff hynny y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau;
- **d.** rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau.

I adnewyddu'r canllawiau hyn, mae swyddogion Polisi Chwarae Llywodraeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, wedi ymgysylltu â Chwarae Cymru, Arweinwyr Chwarae Awdurdodau Lleol ac amrywiaeth o gydweithwyr polisi mewnol er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn berthnasol ac yn gyfredol ar adeg ei chyhoeddi.



## Diffiniad o chwarae

Y diffiniad o chwarae yn y canllawiau statudol hyn yw'r un a ddatblygwyd gan y sector gwaith chwarae ac a gydnabyddir yn rhyngwladol, sef:

> *"Mae chwarae'n ymddygiad y mae'r plentyn wedi'i ddewis o'i wirfodd, yn ei lywio ei hun ac yn ei wneud er ei fwyn ei hun. Mae'n cael ei wneud heb olwg ar unrhyw nod na gwobr allanol, ac mae'n rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach – nid yn unig o ran y plant unigol, ond hefyd o ran y gymdeithas y maent yn byw ynddi."*

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y gall chwarae gynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden ac yn ystyried bod creu amgylchedd lle y gall plant chwarae'n ddirwystr yn ganolog i nod adran 11 o'r Mesur.

Rydym yn cydnabod bod ein cymdeithas wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o ran y graddau y derbynnir ei bod yn beth arferol i blant fynd allan i chwarae a threfnu ble maent yn mynd a beth maent yn ei wneud yn eu hamser eu hunain. Mae hyn wedi digwydd am resymau amrywiol, gan gynnwys mwy o bryderon am y risgiau i blant yn sgil mwy o draffig; y canfyddiad y gallai rhai oedolion fod yn fygythiad i blant; diffyg mannau diogel i chwarae; mwy o ddefnydd o'r teledu a'r cyfrifiadur ac weithiau barn negyddol am blant yn chwarae gan rannau eraill o'r gymuned. Am y rhesymau hyn, rydym am wneud y cymunedau yn lleoedd gwell i chwarae drwy roi gwerth ar gyfleoedd i chwarae a chynyddu nifer y cyfleoedd chwarae o ansawdd sydd ar gael drwy'r gymuned gyfan. Ein nod yw gweld mwy o blant yn chwarae dan do ac yn yr awyr agored a thrwy hynny'n mwynhau'r manteision iechyd, cymdeithasol, gwybyddol ac emosiynol a gynigir gan chwarae.

At ddiben y Mesur, diffinnir chwarae fel "unrhyw weithgaredd hamdden" (adran 11(6) o'r Mesur).

Rydym yn ystyried bod yr amrywiaeth o gyfleoedd chwarae i blant a gwmpesir o dan y Mesur yn cynnwys:

- **Chwarae rhydd –** sy'n cael ei oruchwylio/hwyluso gan oedolion, neu beidio.
- **Unrhyw weithgareddau hamdden –** sydd, yn bennaf, yn cael eu harwain gan oedolion, gyda rheolau a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

Efallai y bydd y cyfleoedd hyn ar gael mewn amrywiaeth o fannau a lleoliadau. Gall unrhyw leoliad gynnig cyfleoedd i blant chwarae o'u gwirfodd a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden strwythuredig.

Mae Sylw Cyffredinol Rhif 17 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi diffiniadau defnyddiol:

> **Chwarae:** *"Chwarae plant yw unrhyw ymddygiad, gweithgaredd neu broses sy'n cael ei sbarduno, ei r(h)eoli a'i strwythuro gan y plant eu hunain; bydd chwarae'n digwydd pryd bynnag a ble bynnag y bydd cyfle'n codi. Gall gofalwyr gyfrannu at greu amgylcheddau lle mae chwarae yn digwydd, ond mae chwarae ei hun yn anorfodol, yn cael ei ysgogi gan gymhelliant cynhenid a'i gyflawni er ei fudd ei hun, yn hytrach nag fel modd i gyflawni diben. Mae chwarae yn cynnwys arfer annibyniaeth, gweithgarwch corfforol, meddyliol neu emosiynol, a gall fod ar bob math o ffurf, naill ai mewn grwpiau neu'n unigol. Bydd y ffurfiau hyn yn newid ac yn cael eu haddasu drwy gydol plentyndod. Nodweddion allweddol chwarae yw hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a bod yn anghynhyrchiol. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at y mwynhad y mae'n ei greu a'r cymhelliant dilynol i barhau i chwarae. Er bod chwarae yn aml yn cael ei ystyried yn rhywbeth nad yw'n hanfodol, mae'r Pwyllgor yn cadarnhau ei fod yn rhan sylfaenol ac annatod o bleser plentyndod, a hefyd yn elfen hanfodol o ddatblygiad corfforol, cymdeithasol, gwybyddol, emosiynol ac ysbrydol."*

**Gweithgareddau hamdden:** *"Mae hamdden yn derm ambarél a ddefnyddir i ddisgrifio amrywiaeth eang iawn o weithgareddau gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, cymryd rhan mewn cerddoriaeth, celf, crefftau, ymgysylltu â'r gymuned, clybiau, chwaraeon, gemau, heicio a gwersylla, a hobïau. Mae'n cynnwys gweithgareddau neu brofiadau, a ddewisir gan y plentyn o'i wirfodd, naill ai oherwydd y boddhad a roddir ar unwaith neu am ei fod neu ei bod yn canfod y bydd rhyw werth personol neu gymdeithasol yn deillio o'u cyflawni. Mae gweithgareddau hamdden yn aml yn digwydd mewn mannau a gynlluniwyd yn benodol ar eu cyfer. Er y bydd llawer o weithgareddau hamdden wedi'u trefnu a'u rheoli gan oedolion, dylai hamdden fod yn weithgaredd gwirfoddol. Nid yw gemau na chwaraeon gorfodol neu dan orfod nac ymwneud gorfodol â sefydliad ieuenctid, er enghraifft, yn gyfystyr â hamdden."*

## Beth yw cyfleoedd chwarae digonol?

Mae adran 11(6) yn nodi mai ystyr "digonol" mewn perthynas â chyfleoedd chwarae yw **nifer** ac **ansawdd** digonol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw pennu gofynion penodol o ran nifer ac ansawdd cyfleoedd chwarae mewn ardal benodol yn dasg syml, am ei bod yn dibynnu ar sawl ffactor newidiol, gan gynnwys:

- yr amgylchedd naturiol a daearyddiaeth yr ardal
- yr amgylchedd adeiledig a nodweddion y cymunedau
- demograffeg yr ardal
- y cyfleoedd a'r ddarpariaeth chwarae sy'n bodoli eisoes
- y strwythurau sefydliadol sy'n bodoli eisoes.

Bydd y rhain i gyd yn effeithio ar y canlynol:

- y sefyllfa bresennol
- pa newidiadau sydd angen eu gwneud i greu amgylchedd lle mae cyfle i chwarae
- sut y gellir cyflawni'r rhain.

Rydym yn cydnabod y bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ddigonol ac yn gyflawnadwy yn dibynnu ar y ffactorau newidiol hyn ac y dylai gael ei bennu'n lleol, yn unol â'r amcanion a'r materion i'w hystyried a nodir yn Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2012 a'r Canllawiau Statudol hyn. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â phlant, eu teuluoedd a chymunedau.

## Nifer y cyfleoedd chwarae

Dylid sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael fel bod unrhyw blentyn neu berson ifanc yn gallu chwarae'n rhydd a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau hamdden yn ei gymuned ar adegau ac mewn mannau sy'n diwallu ei anghenion.

## Ansawdd cyfleoedd chwarae

Dylai'r awdurdod lleol asesu'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael i blant yn ei ardal a sicrhau cyfleoedd sy'n diwallu anghenion cymdeithasol y plant a'u anghenion o ran mwynhad a datblygiad. Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn un hyblyg a diddorol, y gellir ei addasu a'i amrywio. Mae'n manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gymdeithasu ac i fod yn greadigol a dyfeisgar, ymateb i heriau a gwneud dewisiadau. Mae'n fan cyhoeddus y gellir ymddiried ynddo, lle mae plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, yn eu hamser eu hunain, ac ar eu telerau eu hunain.

Mae darparu cyfleoedd chwarae o ansawdd yn cynnig cyfle i bob plentyn ryngweithio'n rhydd â'r canlynol neu brofi'r canlynol:

- **plant eraill –** o oedrannau a galluoedd gwahanol gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, trafod, cydweithio, dadlau a datrys anghydfodau
- **y byd naturiol –** y tywydd, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid, mwd
- **rhannau rhydd –** deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu
- **y pedair elfen –** daear, awyr, tân a dŵr

- **her ac ansicrwydd –** cyfleoedd graddol i fentro; ar lefel gorfforol ac emosiynol hefyd
- **newid hunaniaeth –** chwarae rôl a gwisgo i fyny
- **symud –** rhedeg, neidio, dringo, cydbwyso, rholio, siglo, sleidro a throelli
- **chwarae gwyllt –** chwarae ymladd
- **y synhwyrau** – synau, blas, gwead, aroglau a golygfeydd.

O dan adrannau gwahanol yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, dylai'r awdurdod lleol ystyried i ba raddau y caiff plant gyfle i chwarae mewn mannau chwarae â gwerth chwarae uchel; ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden sy'n diwallu eu hanghenion.

Wrth fynd ati i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod eu Cynlluniau Gweithredu Chwarae yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith mewn modd sy'n sicrhau cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel i bob plentyn.

## Amser, lle a chaniatâd

Fel y noda'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2022), gall cyfleoedd chwarae i blant gael eu cefnogi neu eu cyfyngu ar draws tri maes rhyng-gysylltiedig:

- **Amser –** amser 'rhydd' plant (canfyddiad gwrthrychol a goddrychol plant) pan fyddant yn gallu ymgolli yn eu chwarae
- **Lle –** sut y gall mannau cyhoeddus gefnogi neu gyfyngu ar allu plant i chwarae yn ogystal â mynediad i fannau chwarae dynodedig
- **Caniatâd –** profiadau goddrychol plant o amser a lle, gan gynnwys ffactorau fel ymdeimlad o ryddid, caniatâd, perthyn, ofn ac aflonyddu, yn ogystal ag adfeddiant a rheolaeth gynyddol oedolion dros chwarae.

Er mwyn i blant gael cyfleoedd chwarae digonol, mae angen iddynt gael amser i chwarae, lle i chwarae a chydnabyddiaeth gan oedolion bob gan bob plentyn yr hawl hon, fel bod pob un ohonynt yn cael yr amser a'r lle hwnnw.



# 3. **Ymgynghori, cyfranogi ac ymgysylltu**

Er mwyn sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn bodloni gofynion plant, mae'n hanfodol bod eu barn ar y math o weithgareddau chwarae a hamdden sydd eu hangen arnynt yn cael ei gymryd o ddifrif ac yn llywio penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Dylai'r awdurdod lleol ymgynghori â phlant ynghylch pa gyfleoedd chwarae, darpariaeth chwarae; gweithgareddau a digwyddiadau a fyddai'n diwallu eu hanghenion.

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae'n rhaid i awdurdod lleol roi sylw:

(a) i anghenion plant sy'n bobl anabl (o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (p. 50);

(b) i anghenion plant o wahanol oedrannau.

Felly, dylai methodolegau cyfranogi gael eu hwyluso mewn ffordd sy'n ymateb i oedran, aeddfedrwydd a gallu'r plant dan sylw. Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn ganllaw ar sut i sicrhau ymgysylltu o ansawdd da gyda phlant a phobl ifanc. Maent yn nodi'r materion allweddol y dylai gweithwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru, gan nodi'r camau gweithredol y gellir eu cymryd i sicrhau bod cyfranogiad yn ystyrlon, yn ddiogel ac yn gynhwysol. Ceir enghreifftiau o arferion cyfranogiad da yng nghanllaw arferion da Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, mae'r Ffordd Gywir yn fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ac Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, yn seiliedig ar CCUHP, i helpu cyrff cyhoeddus i integreiddio hawliau plant â phob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisïau ac arferion. Mae'r fframwaith yn ymgorffori'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, ac mae pob un o'r canllawiau'n yn cynnig enghreifftiau defnyddiol ymarferol o sut beth yw cyfranogiad o ansawdd da, gan gynnwys yn y blynyddoedd cynnar ac wrth weithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dylai'r awdurdod lleol hefyd ymgynghori â rhieni, y gymuned leol ac unrhyw randdeiliad arall sydd â diddordeb mewn datblygu cyfleoedd chwarae a datblygu cymunedau sy'n croesawu plant a chyfleoedd i chwarae.

Dylai'r asesiad ystyried:

- Barn plant, a gafwyd drwy ymgynghori, ar y ddarpariaeth chwarae a hamdden sy'n bwysig yn eu hardaloedd; sut yr hoffent i'w cymdogaeth gael ei threfnu i ddarparu'r cyfleoedd chwarae y maent am eu cael; a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag chwarae. Dylai'r ymgynghoriad gynnwys barn y plant sy'n defnyddio'r cyfleoedd chwarae sy'n bodoli eisoes a barn y plant nad ydynt yn eu defnyddio.
- Dadansoddiad o ganlyniadau'r gwaith ymgynghori hwn a sut y'u defnyddiwyd neu y cânt eu defnyddio i lywio cynlluniau yn y dyfodol.
- Barn rhieni, teuluoedd a rhanddeiliaid eraill, er budd pennaf plant, a gafwyd drwy ymgynghori, ar ddarpariaeth/cyfleoedd chwarae a sut mae'r farn honno wedi llywio cynlluniau yn y dyfodol neu sut y bydd yn gwneud hynny.

Wrth fynd ati bob blwyddyn i ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae, eu rhoi ar waith a'u hadolygu, dylid ymgynghori â'r plant a'r teuluoedd y mae neu y bydd unrhyw gamau gweithredu yn effeithio arnynt gan roi cyfle iddynt fynegi barn am yr hyn a gyflawnwyd, y manteision a fyddai'n deillio o ddarparu mwy o gyfleoedd chwarae a chamau i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

# 4. Fframwaith Polisi Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – asesu digonolrwydd

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gwblhau asesiadau o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd bob tair blynedd fel y nodwyd yn y Rheoliadau.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau a chyflwyno copi o'u Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, eu Cynlluniau Gweithredu Chwarae ac adroddiadau eraill i swyddogion Llywodraeth Cymru fel y nodir isod. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i feithrin perthynas waith gref â'r awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu'r agenda chwarae, a hynny drwy rannu gwybodaeth a monitro'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae.

**Dyma'r dogfennau y mae'n ofynnol eu cyflwyno i Weinidogion Cymru:**

**Y Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae –** Rhaid iddo fod yn asesiad llawn o'r cyfleoedd chwarae yn ardal yr awdurdod lleol, a nodir ar y Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. **Mae'n ofynnol cwblhau'r Asesiad bob tair blynedd.** Mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gyfrannu canlyniadau'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae at y Cynllun Llesiant (gweler Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae **–** Dylai gynnwys crynodeb o brif ganlyniadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a nodi'r camau gweithredu y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i sicrhau cyfleoedd digonol. **Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru ochr yn ochr â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae bob tair blynedd.**

Cynllun Gweithredu Chwarae **–** sy'n manylu ar y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir ar gyfer cynnal yr agweddau cryf ar y ddarpariaeth a mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. **Mae angen diweddaru'r Cynllun Gweithredu Chwarae bob blwyddyn.**

Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Chwarae **–** O dan y ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae a'u rhoi ar waith. Bob blwyddyn, dylai awdurdodau lleol ddangos y cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu a gwelliant parhaus o ran sicrhau cyfleoedd chwarae. Mae'n ofynnol paratoi Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Chwarae bob blwyddyn.

## Amserlen ar gyfer asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol dros y 10 mlynedd nesaf

**1 Meh 2024**

Cwblhau a chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

1) Cynllun Gweithredu Chwarae 2024–2025; ac
2) Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer 2023–2024

**30 Meh 2025**

Cwblhau a chyflwyno i Weinidogion Cymru:

1) Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau a chyflwyno copi o'u Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
2) Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
3) Y Cynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer 2025–2026

**1 Meh 2026**

Cwblhau a chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

1) Cynllun Gweithredu Chwarae; ac
2) Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer 2025–2026

**1 Meh 2027**

Cwblhau a chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

1) Cynllun Gweithredu Chwarae 2027–2028; ac
2) Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer 2026–2027

**30 Meh 2028**

Complete and submit to Welsh Ministers:

1) Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau a chyflwyno copi o'u Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
2) Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
3) Cynllun Gweithredu Chwarae 2031–2032

**1 Meh 2029**

Cwblhau a chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

1) Cynllun Gweithredu Chwarae 2030–2031; ac
2) Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer 2029–2030

**1 Meh 2030**

Cwblhau a chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

1) Cynllun Gweithredu Chwarae 2029–2030 ac
2) Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer 2028–2029

**30 Meh 2031**

Cwblhau a chyflwyno i Weinidogion Cymru:

1) Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau a chyflwyno copi o'u Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
2) Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
3) Cynllun Gweithredu Chwarae 2031–2032

**1 Meh 2032**

Cwblhau a chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

1) Cynllun Gweithredu Chwarae 2032–2033 ac
2) Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer 2031–2032

**1 Meh 2033**

Cwblhau a chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

1) Cynllun Gweithredu Chwarae 2033–2034 ac
2) Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer 2032–2033

## 4.1 Cynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Ategir y broses o Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gan gamau allweddol a amlinellir yn fanylach yn y Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae'r Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi'i ddiweddaru ar y cyd â Chwarae Cymru er mwyn helpu awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'u cynnal ac i datblygu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys templedi a fydd yn cefnogi'r broses asesu ac yn rhoi ffynonellau defnyddiol o wybodaeth.

### Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Cynnwys a dolenni

| | |
|---|---|
| **Adnodd 1: Papur briffio 'Ffocws ar chwarae' ar gyfer cynghorwyr lleol**<br>Ffocws ar chwarae – Chwarae a chynghorwyr sir – Chwarae Cymru | Mae'r papur briffio hwn ar gyfer cynghorwyr lleol yn darparu gwybodaeth am ddyletswyddau statudol yr awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardal. |
| **Adnodd 2: Dadansoddiad o'r opsiynau ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 2 | Mae cynnal dadansoddiad o'r opsiynau ar gyfer Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ddefnyddiol yn ystod y cam paratoi a bydd yn helpu i gytuno ar y fethodoleg ar gyfer yr asesiad. Mae'r adnodd hwn yn nodi meysydd i'w hystyried wrth ddadansoddi'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer cynnal Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. |
| **Adnodd 3: Cylch gorchwyl y Grŵp Monitro Chwarae**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 3 | Mae adnodd 3 yn dempled ar gyfer dogfen cylch gorchwyl y gellir ei defnyddio wrth sefydlu Grŵp Monitro Chwarae neu grŵp tebyg. |
| **Adnodd 4: Grŵp Monitro Chwarae (neu grŵp tebyg) – Archwiliad gwybodaeth**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 4 | Dyma adnodd archwilio i helpu aelodau'r Grŵp Monitro Chwarae (neu grŵp tebyg) yn ystod y cam paratoi i nodi a chasglu gwybodaeth yn ymwneud â phob thema wrth ystyried pob un o'r materion. |
| **Adnodd 5: Deall Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Pecyn o adnoddau hyfforddi**<br>Cymwysterau a hyfforddiant – Chwarae Cymru | Nod y cwrs hyfforddi hwn yw helpu i hyrwyddo pwysigrwydd digonolrwydd chwarae ymhlith partneriaid awdurdodau lleol.<br>Mae'n gyfle i lunwyr polisi ac ymarferwyr gydweithio gan archwilio eu cyfrifoldebau cyfunol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. |
| **Adnodd 6: Bod yn hyrwyddwr chwarae**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 6 | Mae'r adnodd hwn yn rhoi awgrymiadau ar ddatblygu sgiliau ar gyfer bod yn Hyrwyddwr Chwarae ac eirioli dros chwarae yn ardal eich awdurdod lleol. |
| **Adnodd 7: Yr Arolwg Boddlonrwydd Chwarae – Taflen wybodaeth (canllaw i'w ddefnyddio'n lleol)**<br>Yr Arolwg Boddlonrwydd Chwarae: Canllaw i'w ddefnyddio'n lleol – Chwarae Cymru | Mae'r daflen wybodaeth hon ar gyfer swyddogion yr awdurdodau lleol sy'n cynnal arolygon bodlonrwydd chwarae. Mae'n cynnwys cwestiynau ar gyfer dadansoddiadau lleol a chenedlaethol.<br>Mae'r adnodd hwn yn cynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt ymgynghori â phlant fel rhan o'u Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae'n darparu arferion da ar gyfer cynllunio, paratoi a defnyddio'r arolwg, yn ogystal â chanllawiau ar gasglu, prosesu a chynnal dadansoddiadau syml o'r data. |

| | |
|---|---|
| **Adnodd 8: Plant fel archwilwyr - Taflen wybodaeth**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 8 | Mae'r adnodd hwn yn darparu awgrymiadau ar gyfer cynnwys plant wrth gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac archwilio mannau chwarae. |
| **Adnodd 9: Gweithdy hawl i chwarae**<br>Gweithdy hawl i chwarae – Chwarae Cymru | Mae'r adnodd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer gweithwyr chwarae, gweithwyr cyfranogi, gweithwyr ieuenctid a staff eraill i'w helpu i gynnal gweithdy hawl i chwarae gyda phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau strwythuredig eraill.<br><br>Nod y gweithdy yw codi ymwybyddiaeth am yr hawl i chwarae. Mae hefyd yn ceisio grymuso plant a phobl ifanc fel eu bod yn gallu cyflwyno'r achos dros ddarparu gwell cyfleoedd iddynt chwarae a chwrdd â'u ffrindiau. |
| **Adnodd 10: Ffurflen fonitro ar gyfer grŵp ffocws**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 10 | Dyma ffurflen fonitro i gefnogi'r person sy'n hwyluso grŵp ffocws ar gyfer arolwg. Bydd yr adnodd yn helpu i sicrhau dull cynhwysol wrth gynnwys plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae. |
| **Adnodd 11: Cynnal arolwg ymhlith rhieni**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 11 | Mae'r adnodd hwn yn darparu rhestr o gwestiynau y gellir eu defnyddio i gasglu gwybodaeth a barn rhieni am gyfleoedd chwarae. |
| **Adnodd 12: Cwestiynau i blant ynghylch amseroedd chwarae yn yr ysgol**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 12 | Mae'r adnodd hwn yn darparu rhestr o gwestiynau y gellir eu defnyddio i ofyn barn plant am gyfleoedd chwarae/amseroedd egwyl yn yr ysgol. |
| **Adnodd 13: Arolwg i ysgolion ar amseroedd chwarae yn yr ysgol**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 13 | Mae'r adnodd hwn yn templed o gwestiynau arolwg y gellir eu defnyddio gan ysgolion i gasglu gwybodaeth am amseroedd chwarae plant yn yr ysgol.<br><br>Mae dysgu mwy am gyfleoedd i chwarae yn yr ysgol yn rhan o'r gwaith statudol wrth gynnal Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. |
| **Adnodd 14: Asesu mannau i chwarae**<br>Creu mannau chwarae hygyrch – Chwarae Cymru | Gellir dod o hyd i amrywiaeth o dempledi yn *Creu mannau chwarae hygyrch: pecyn cymorth:*<br>• Wiliad o fan chwarae<br>• Asesiad o fynediad i fannau chwarae<br>• Rhestr wirio o werth chwarae |
| **Adnodd 15: Dadansoddi anghenion hyfforddiant ar gyfer datblygu'r gweithlu**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 15 | Mae'r adnodd hwn yn darparu templed o holiadur i weithwyr i gefnogi dadansoddiad o anghenion hyfforddi'r gweithlu wrth gynnal Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. |
| **Adnodd 16: Templed ar gyfer holiadur i gyflogwyr/lleoliadau**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 16 | Mae'r adnodd hwn yn darparu templed enghreifftiol y gellir ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth gan leoliadau/cyflogwyr am y ddarpariaeth gwaith chwarae a'r gweithlu chwarae. |
| **Adnodd 17: Adnodd blaenoriaethu ar gyfer y Cynllun Gweithredu Chwarae**<br>Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Adnodd 17 | Bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi nodi amrywiaeth o gamau gweithredu i lywio'r Cynllun Gweithredu Chwarae. Bydd yr adnodd hwn yn helpu i flaenoriaethu'r camau gweithredu a restrir i gyflawni canlyniadau da i blant, wrth gynllunio ar gyfer cyfleoedd digonol i chwarae.<br><br>Bydd angen cytuno ar y blaenoriaethau fel rhan o'r broses o lunio'r Cynllun Gweithredu. Mae'r adnodd hwn yn awgrymu ffactorau i'w hystyried wrth nodi a chytuno ar y meini prawf ar gyfer blaenoriaethu'r camau gweithredu. |

### Cam 1 – Paratoi ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

### Cam 2 – Asesu yn erbyn materion yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Mae'r Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn nodi pedair thema sy'n ymwneud â'r materion i'w hasesu:

- Poblogaeth – Materion A, B, D;
- Lleoedd lle mae plant yn chwarae – Materion C, Dd a Ff;
- Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth – Materion Ch ac E; a
- Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth – Materion Dd, E, F, Ff.

### Cam 3 – Paratoi'r Cynllun Gweithredu Chwarae

Bydd awdurdodau lleol yn cwblhau Cynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae er mwyn nodi pa gamau y bydd angen eu cymryd i wella a chynnal cyfleoedd chwarae i blant.

Bydd awdurdodau lleol yn cwblhau Adroddiad Cynnydd blynyddol ar y Cynllun Gweithredu Chwarae i nodi'r canlyniadau a gyflawnwyd wrth greu cyfleoedd chwarae a'r camau gweithredu i wella digonolrwydd.

O dan y ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardal, dylai awdurdodau lleol fynd ati mewn pob ffordd ymarferol sydd ar gael iddynt i gynnal y ddarpariaeth a'r gwasanaethau ac i wella'r cyfleoedd chwarae i bob plentyn yn eu hardal a darparu mwy ohonynt. Wrth wneud hynny, dylent ystyried y cryfderau a'r diffygion a nodwyd yn eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a hefyd y gofynion asesu, fel y'u nodwyd yn y Rheoliadau a'r canllawiau hyn.

Yn benodol, rhaid sicrhau cyfleoedd chwarae digonol drwy weithredu'r camau a nodir yng **Nghynlluniau Gweithredu Chwarae** yr awdurdodau lleol a ddatblygwyd i gynnal yr agweddau cryf ar y ddarpariaeth a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodwyd yn yr asesiad. Mae'n rhaid i'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae gael eu datblygu a'u hadolygu bob blwyddyn er mwyn cofnodi'r cynnydd a wneir a nodi'r camau y bydd angen eu cymryd yn ystod y flwyddyn nesaf, sut y caiff y rhain eu cyflawni, a'r amserlenni ar gyfer eu cwblhau.

Wrth sicrhau cyfleoedd chwarae digonol drwy'r Cynllun Gweithredu Chwarae, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y cydweithrediad a'r gwaith partneriaeth a sefydlwyd wrth gynnal yr asesiad yn parhau wrth ddatblygu a chymryd camau i wella cyfleoedd chwarae.

## 4.2 Gweithio mewn partneriaeth a chydweithio

Wrth weithredu ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i sicrhau cymdeithas sy'n croesawu cyfleoedd chwarae ac sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae a hamdden, bydd angen i bob partner yn y gymuned weithio gyda'i gilydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i gydnabod pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant ac i wneud ymrwymiad cadarn i weithio'n ddiwyd o fewn eu strwythurau eu hunain, gyda sefydliadau partner, a gyda phlant a'u teuluoedd a chymunedau i sicrhau bod plant yn cael y cyfleoedd chwarae y maent am eu cael ac y mae ganddynt yr hawl i'w disgwyl.

Mae'r partneriaethau perthnasol yn debygol o gynnwys:

- Cynghorau Tref a Chymuned
- Sefydliadau yn y trydydd sector, yn enwedig cymdeithasau chwarae rhanbarthol
- y Sector Preifat os yw hynny'n briodol
- Grwpiau Cymunedol
- Byrddau Iechyd
- Cymdeithasau Tai, yr Heddlu a Gwasanaethau Tân, fel y bo'n briodol
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol/Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau perthnasol yn eu hardal, gall y gwaith o gynllunio a darparu cyfleoedd chwarae gael ei wneud ar sail ranbarthol ac ar draws ffiniau awdurdodau lleol lle bo'n briodol, a gyda sefydliadau cenedlaethol sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu chwarae. Dylai pob ardal fod yn rhagweithiol o ran datblygu cyfleoedd chwarae i blant yn yr ardal ei hun, yn ogystal â chefnogi a rhannu arferion da gydag awdurdodau/sefydliadau eraill i hyrwyddo cyfleoedd chwarae i holl blant Cymru.

Er mwyn sicrhau cyfraniad digonol gan amrywiaeth o bartneriaid ac ar draws meysydd polisi a chyflawni'r awdurdod lleol, ac er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i asesu, cynllunio a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, dylai'r awdurdod lleol sefydlu Grŵp Monitro Chwarae neu grŵp tebyg.

Dylai'r grŵp hwn gefnogi'r cyfarwyddwr arweiniol, yr aelod arweiniol dros wasanaethau plant a phobl ifanc a'r swyddog a dynodwyd i arwain ar swyddogaethau rheoli a chyflawni (Mater E) i gyflawni'r ddyletswydd o dan y Mesur, a thrwy hynny sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn ei ardal. Dylai hefyd wahodd Hyrwyddwyr Chwarae i fod yn rhan o waith y grŵp er mwyn eu cynnwys a chael eu cymorth i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant.

## 4.3 Darparu adnoddau a manteisio i'r eithaf arnynt

Mae chwarae yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddarpariaeth, cyfleusterau, gwasanaethau a sefydliadau cymunedol, felly mae'n hanfodol bod cyllidebau sy'n cwmpasu'r holl feysydd hyn yn cyfrannu tuag at y nod o sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant.

O wneud newidiadau bach i'r ffordd y defnyddir cyllidebau, rhagwelir y bydd modd cynnig llawer mwy o gyfleoedd chwarae.

Wrth i bartneriaid lleol fynd ati i ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu, dylent nodi'r cyllidebau hyn ac ystyried eu defnyddio i wella cyfleoedd chwarae, gan ailflaenoriaethu os oes angen. Dylid adolygu'r cyllidebau ar gyfer meysydd polisi perthnasol sy'n effeithio ar gyfleoedd chwarae i blant wrth baratoi'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae a sicrhau eu bod yn esgor ar y manteision gorau posibl.



# 5. Materion y mae angen eu hystyried wrth asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol

Wrth asesu nifer ac ansawdd y cyfleoedd chwarae, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried y materion hyn:

| | |
|---|---|
| **Mater A** | Poblogaeth |
| **Mater B** | Diwallu anghenion amrywiol |
| **Mater C** | Y lle sydd ar gael i blant chwarae:<br>• Mannau agored<br>• Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff<br>• Caeau chwarae |
| **Mater Ch** | Darparu cyfleoedd i chwarae dan oruchwyliaeth:<br>• Darparu gwaith chwarae<br>• Gweithgareddau hamdden strwythuredig |
| **Mater D** | Codi tâl am ddarpariaeth chwarae |
| **Mater Dd** | Mynediad i le a darpariaeth, gan gynnwys mesurau diogelwch ar y ffyrdd, trafnidiaeth, gwybodaeth a chyhoeddusrwydd |
| **Mater E** | Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae |
| **Mater F** | Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys |
| **Mater Ff** | Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol. |

## 5.1 Mater A

Dylai'r asesiad gyflwyno data am nifer y plant sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol ar hyn o bryd a rhagolwg ar gyfer y pum mlynedd nesaf, er mwyn gallu mynd ati i asesu eu gofynion chwarae posibl. Dylai'r data ddarparu gwybodaeth am nifer y plant mewn categorïau gwahanol a all effeithio ar eu gofynion chwarae. Dylai'r data hefyd ddangos a yw'r ardaloedd yn cael eu hystyried yn rhai dan anfantais neu'n ddifreintiedig.

Dylai hyn gynnwys nifer y plant ym mhob ward, a ddosberthir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, neu'n ardaloedd a nodwyd gan yr awdurdod lleol yn rhai sy'n briodol at ddibenion cynllunio digonolrwydd. Dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- grwpiau oedran plant
- nifer y plant anabl a gofnodwyd ym mhob grŵp oedran
- Cymraeg fel iaith gyntaf a'r rhai a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg
- plant nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf
- ffactorau diwylliannol eraill a gofnodwyd, gan gynnwys hil (gan gynnwys plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches).

## 5.2 Mater B

Dylai'r awdurdod lleol anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac yn hygyrch ac sy'n annog pob plentyn i chwarae a dod at ei gilydd os dymunir.

Dylai'r cynnig adlewyrchu'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** sy'n cydnabod plant ac oedolion ag amhariadau sy'n cael eu hanablu gan rwystrau cyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal plant rhag cymryd rhan yn yr amrywiaeth o gyfleoedd chwarae yn eu hardal.

Dylai'r asesiad ystyried y canlynol:

- i ba raddau y mae'r cyfleoedd chwarae yn cael eu hannog ac yn bodloni gofynion plant o gymunedau a diwylliannau amrywiol, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd gwledig anghysbell
- i ba raddau y mae'r cyfleoedd chwarae yn bodloni gofynion plant Cymraeg eu hiaith
- i ba raddau y mae'r cyfleoedd chwarae yn hygyrch ac yn gynhwysol i blant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol; gall hyn gynnwys cymorth i fanteisio ar gyfleoedd chwarae
- i ba raddau y mae darpariaeth arbenigol ar gael i blant anabl, os nodwyd yn glir fod angen y ddarpariaeth honno
- i ba raddau y mae cynllunio cymunedol, traffig a thrafnidiaeth yn ymdrin â gofynion plant anabl i fanteisio ar gyfleoedd chwarae.

## 5.3 Mater C

Dylai'r awdurdod lleol gydnabod y gall pob man agored, gan gynnwys y rhai sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn ei ardal er nad yw'n berchen arnynt, yn fannau pwysig i blant chwarae ynddynt neu fynd drwyddynt i gyrraedd ardaloedd eraill lle y gellir chwarae neu fannau eraill y maent yn mynd iddynt. Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried y canlynol:

- glaswelltir/prysgdir
- coetir a mannau gwyrdd amwynder
- traethau a glannau afonydd a llynnoedd
- parciau a gerddi cyhoeddus (yn ogystal ag ardaloedd chwarae penodedig o fewn y parciau)
- strydoedd preswyl
- tir ysgolion
- safleoedd tir llwyd
- meysydd pentrefi, sgwariau trefi, plazas a mannau cyhoeddus trefol agored eraill
- darnau o dir cysylltiedig, er enghraifft ar hyd ffyrdd a llwybrau.

Fel rhan o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, dylai awdurdodau lleol ddefnyddio Asesiadau o Fannau Agored sy'n bodoli eisoes a ffynonellau lleol eraill o wybodaeth i fapio ardaloedd a ddefnyddir at ddibenion chwarae neu y gellid eu defnyddio at y dibenion hynny. Dylai'r mannau agored a ystyrir gynnwys y rheini a nodir ym **Mholisi Cynllunio Cymru** Llywodraeth Cymru a **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 "Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored"** a **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12 "Dylunio"** yn ogystal â safleoedd tir llwyd; strydoedd preswyl; a thiroedd ysgol.

Dylid asesu'r man o ran y canlynol:

- ei werth o ran chwarae
- pellter teithio o gartrefi plant heb unrhyw rwystrau ffisegol sylweddol
- ei hygyrchedd
- a oes unrhyw beryglon amhriodol yno
- lefelau derbyniol o gyfleoedd i fentro mewn modd buddiol
- y defnydd a wneir ohono ar hyn o bryd at ddibenion chwarae
- y potensial i'w ddefnyddio at ddibenion chwarae.

Caiff unrhyw newid o ran y defnydd a wneir o fannau agored, neu ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach, ei gwmpasu gan y canllawiau a'r rheoliadau a nodir fel rhan o'r system gynllunio mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, **Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiedig**.

Disgwylir i unrhyw asesiad sy'n ymwneud â chynllunio mannau agored a gweithgareddau hamdden gael ei gynnal mewn cydweithrediad agos â Swyddog Chwarae Awdurdod Lleol, a dylai'r Asesiadau o Fannau Agored fod yn sail i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac fel arall, er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

### Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried:

- meysydd chwarae a mannau chwarae
- carreg y drws
- lleol
- cymdogaeth
- cyrchfan
- caeau hamdden (chwaraeon) – naturiol ac artiffisial
- mannau gemau aml-ddefnydd
- mannau chwarae ar gyfer olwynion – parciau ar gyfer beiciau BMX a pharciau sglefrio.

Dylai man gael ei asesu ar gyfer:

- ei werth o ran chwarae
- pellter teithio o gartrefi plant heb unrhyw rwystrau ffisegol sylweddol
- maint y ddarpariaeth o ystyried nifer y plant
- a yw'n hygyrch ac yn addas i blant o wahanol oedrannau a galluoedd ac o ran tywydd sych a thywydd gwlyb;
- lefelau derbyniol o gyfleoedd i fentro mewn modd buddiol
- y defnydd a wneir ohono ar hyn o bryd at ddibenion chwarae
- y potensial i gynyddu'r defnydd a wneir ohono at ddibenion chwarae.



### Caeau chwarae

Dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod pwysigrwydd caeau chwarae fel mannau a ddefnyddir gan y gymuned i gynnal gweithgareddau chwaraeon wedi'u trefnu, ac at ddibenion chwarae a hamdden anffurfiol. Mae **Mesur Meysydd Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010** yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar ffurf rheoliadau i gynnwys cymunedau mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol ynghylch gwaredu tir. Ystyr "Awdurdod Lleol" yn y cyd-destun hwn yw cyngor sir/bwrdeistref sirol, cyngor cymuned ac awdurdod parc cenedlaethol.

Dylai unrhyw asesiad o'r effaith gydnabod pwysigrwydd caeau chwarae o ran galluogi plant i chwarae, a dylid cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn unrhyw ymgyngoriadau ar benderfyniadau o'r fath.

## 5.4 Mater Ch

### Darpariaeth gwaith chwarae

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried darpariaeth chwarae, gan gynnwys:

- cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau (cofrestredig ac anghofrestredig)
- meysydd chwarae antur
- cyfleoedd chwarae a gefnogir gan weithwyr chwarae peripatetig (ceidwaid chwarae)
- darpariaeth symudol, megis bysiau chwarae
- clybiau
- sefydliadau sy'n darparu adnoddau ar gyfer y lleoliadau hyn (megis llyfrgelloedd teganau neu siopau sborion).

Dylid asesu'r ddarpariaeth hon o ran y canlynol:

- I ba raddau y mae'n ddigonol i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd.
- I ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion rheoliadol a'r **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** ar gyfer y lleoliad hwnnw, fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru; Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu gorff arolygu arall.
- I ba raddau y mae'n gweithio tuag at gyflawni safonau uchel o ran y cyfleoedd chwarae a gynigir i blant. Dylai pob unigolyn, grŵp a sefydliad sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn dilyn y cyngor a roddir yn **Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: Cod ymarfer diogelu**.

Os yw gwasanaethau gofal plant y tu allan i oriau ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored yn cael eu hasesu eisoes gan yr awdurdodau lleol drwy gyfrwng eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu'r lleoliadau hynny hefyd o ran ansawdd y cyfleoedd chwarae y maent yn eu darparu a'u cynnig.

### Gweithgareddau hamdden strwythuredig

O dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae cyfleoedd chwarae yn cynnwys gweithgareddau hamdden.

Dymuna Llywodraeth Cymru osgoi dyblygu asesiadau o ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cymorth ieuenctid, gan gynnwys darpariaeth gwaith ieuenctid yn ogystal â gweithgareddau Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant. Dylai Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddangos cysondeb â darpariaeth gwaith ieuenctid lleol a gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach a hefyd meysydd cyflawni eraill.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried:

- I ba raddau y mae cytundebau cyllido rhwng Chwaraeon Cymru ac awdurdodau lleol yn cyfrannu at sicrhau mwy o weithgareddau chwarae a hamdden am ddim, a darpariaeth chwaraeon yn cyfrannu at ddarparu gweithgareddau hamdden digonol i blant.

- I ba raddau y mae cyfleoedd chwarae am ddim mewn canolfannau hamdden – nofio am ddim, sesiynau chwarae.
- Y ba raddau y mae'r agenda diwylliant a'r celfyddydau yn helpu i sicrhau bod digon o weithgareddau hamdden yn cael eu darparu i blant.
- I ba raddau y mae Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod lleol yn rhoi cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasu.

## 5.5 Mater D

Ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, bydd cyfleoedd i chwarae mewn mannau agored a mannau chwarae awyr agored dynodedig lle nad oes staff (Mater C) yn cael eu darparu am ddim i blant ac unrhyw oedolion sydd gyda nhw. Gellir codi tâl ar blant a'u teuluoedd am gyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth ac am ddarpariaeth gwaith chwarae a gweithgareddau hamdden strwythuredig (Mater Ch). Gallai hyn fod ar ffurf cyfraniadau gwirfoddol, tâl mynediad a thalu am weithgareddau neu danysgrifio iddynt. Gallai cludiant i'r cyfleoedd hyn fod yn gost ychwanegol (Mater Dd). Yn amlwg, bydd unrhyw daliadau yn cael effaith o ran a fydd amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ar gael i bob plentyn ac, felly, yn effeithio ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth mewn ardal benodol.
Dylid sylweddoli y gall hyd yn oed costau cymharol isel i deuluoedd ar incwm isel sydd â sawl plentyn olygu na all y plant hynny fanteisio ar gyfleoedd chwarae.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddangos pa gyfleoedd chwarae y bydd yn rhaid talu amdanynt, a chost y cyfleoedd hynny. Dylai ystyried i ba raddau y mae unrhyw daliadau yn effeithio ar ddigonolrwydd y cyfleoedd chwarae i'r canlynol:

- plant o deuluoedd incwm isel
- plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig
- plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig
- plant anabl
- plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae ddangos hefyd i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn ystyried taliadau ar gyfer y plant hyn a'u teuluoedd a'r camau a gymerir i liniaru'r amgylchiadau hyn gan gynnwys:

- darparu cyfleoedd chwarae am ddim i blant
- peidio â chodi tâl neu godi tâl isel am safleoedd sy'n eiddo i'r awdurdod lleol a ddefnyddir i ddarparu cyfleoedd chwarae
- grantiau neu gymorthdaliadau i ddarparwyr chwarae
- cymhorthdal ar gyfer costau cludiant i blant sy'n teithio i gyfleoedd chwarae.

Dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am ddarpariaeth chwarae am ddim neu gost isel yn eu hardal drwy eu prif ddulliau o roi cyhoeddusrwydd i ddarpariaeth, gwasanaethau a digwyddiadau, gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a CLIC os yn briodol.

## 5.6 Mater Dd

Wrth gynnal asesiadau ac wrth fynd ati i greu cymunedau lle gall plant chwarae, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod plant yn gallu symud o gwmpas eu cymunedau i chwarae; eu bod yn gallu cerdded neu seiclo i fannau agored neu i ddarpariaeth chwarae neu hamdden; a'u bod yn gallu ymweld â'u teulu a'u cyfeillion neu fynd i'r ysgol, heb unrhyw berygl o niwed.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ac anafiadau ar y ffyrdd, a datblygu amgylchedd mwy diogel i bawb. Y nod yw creu gwlad fwy diogel – ar gyfer ein plant a phawb yng Nghymru.

Mae gan awdurdodau lleol bwerau i gyflwyno terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr lle bo'n briodol – er enghraifft mewn ardaloedd preswyl lle y gallai plant chwarae.

I lawer o blant, mae'r palmentydd a'r ffyrdd y tu allan i'w cartrefi nid yn unig ddarpariaeth chwarae, ond hefyd yn fannau yn eu rhinwedd eu hunain lle y gallant chwarae. Weithiau, dyma'r unig fan agored cyhoeddus mewn cymuned. Cydnabyddwn hefyd pan fydd plant yn teithio i rywle nad dim ond cerdded neu feicio yno a wnânt. Maent hefyd yn chwarae eu ffordd drwy'r gymuned.

O dan Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru, dyrennir cyllid blynyddol i awdurdodau lleol i'w helpu i ddarparu mwy o wasanaethau bws lleol a gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol, ac i wella'r amrywiaeth a gynigir. Er bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau bws lleol yn cael eu darparu'n fasnachol, mae gan awdurdodau lleol y pwerau i roi cymhorthdal i wasanaethau sydd, yn eu barn nhw, yn angenrheidiol er mwyn diwallu angen cymdeithasol. Er mwyn gwneud hynny, maent yn defnyddio eu cyllidebau eu hunain ond hefyd y dyraniadau blynyddol a gânt o dan y Cynllun Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried yr holl ffactorau sy'n helpu i sicrhau bod plant yn cael y cyfle i chwarae neu symud o amgylch eu cymunedau, gan gynnwys:

- mesurau gostegu traffig
- strydoedd chwarae/cau'r ffyrdd dros dro
- llwybrau cerdded a llwybrau beicio diogel
- darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus
- mannau a rennir
- parcio
- oriau agor darpariaeth chwarae.

Dylai'r ffactorau hyn gael eu hasesu o ran:

- Nifer y mannau lle ceir terfyn cyflymder o 20 milltir yr awr mewn ardaloedd preswyl i hyrwyddo cyfleoedd chwarae.
- Effeithiolrwydd y terfynau hyn o ran galluogi plant i symud yn ddiogel o amgylch eu cymunedau a chwarae yn yr awyr agored.
- Y llwybrau cerdded a seiclo diogel a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'r potensial i ddarparu mwy ohonynt. Dylai hyn gyd-fynd â'r cynigion a nodir yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.
- Cadarnhad bod cynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a'i benderfyniadau ynghylch gwariant ar fysiau a gwasanaethau cludiant cymunedol yn adlewyrchu ei asesiad o anghenion plant o ran cyfleoedd i chwarae.
- Prosesau syml ar gyfer trefnu i gau ffyrdd dros dro a sicrhau bod gwybodaeth am y prosesau hynny i'w chael yn hawdd.
- Yr effaith y mae ceir wedi'u parcio yn ei chael ar strydoedd preswyl ac ar y modd y mae plant yn defnyddio lle.
- A oes cyfleoedd chwarae ar gael ar yr adegau y mae plant am gael y cyfleoedd hynny.

## Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd

Er mwyn i blant a theuluoedd fanteisio ar gyfleoedd chwarae, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau, mae angen iddynt wybod beth sy'n cael ei gynnig yn eu hardal.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob awdurdod lleol ddatblygu adran amlwg ar chwarae ar ei wefan. Dylai'r adran honno roi gwybodaeth gynhwysfawr am bob cyfle chwarae; am bob man chwarae a man nad yw o reidrwydd wedi'i ddynodi'n fan chwarae, sy'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae; gweithgareddau; clybiau a digwyddiadau i blant yn ei ardal. Byddai'n ddefnyddiol hefyd darparu gwybodaeth a dolenni perthnasol ar gyfer rhieni, i'w hannog i gefnogi a chymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae yn y gymuned ehangach. Gallai'r wybodaeth hon hefyd gael ei darparu drwy ddulliau eraill yr awdurdod lleol o roi cyhoeddusrwydd i'w waith.

Ceir gwybodaeth am Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth gyhoeddus am bwysigrwydd siarad, ymgysylltu a chwarae gyda babanod a phlant ifanc, yn y Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Bydd digwyddiadau sy'n hyrwyddo chwarae ac yn annog pobl i dderbyn gweithgareddau chwarae mewn mannau cymunedol fel mater o drefn yn helpu i sicrhau bod chwarae'n cael ei dderbyn ar adegau eraill. Hefyd, drwy roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a darparu gwybodaeth gadarnhaol a straeon newyddion, bydd modd datblygu agweddau cadarnhaol yn y gymuned at blant a'u hawl i chwarae.

Gallai'r awdurdod lleol ddefnyddio arwyddion mewn mannau yn y gymuned lle mae plant yn cael chwarae, er mwyn rhoi neges glir i blant ac oedolion bod croeso i blant chwarae yn y man hwnnw. Gallai'r arwyddion hynny fod ar ffurf offer chwarae neu'n ffordd fwy symbolaidd o ddangos bod ganddynt yr hawl i chwarae yno. Dylai fod yn glir nad dim ond yn y mannau hyn y caiff plant chwarae.

Dylai'r asesiad ystyried:

- i ba raddau y mae gwybodaeth am fannau chwarae ac am weithgareddau chwarae a hamdden, clybiau a digwyddiadau i blant ar gael yn hawdd drwy wefan yr awdurdod lleol a ffynonellau eraill
- i ba raddau y mae gwybodaeth ar gael am hygyrchedd y ddarpariaeth, ynghyd ag enw cyswllt ar gyfer cymorth os bydd angen
- i ba raddau y mae gwybodaeth ar gael am ddigwyddiadau i'r teulu cyfan
- i ba raddau y mae gwybodaeth ar gael am sut y gall rhieni, llywodraethwyr ysgolion, grwpiau cymunedol, a gwirfoddolwr helpu i ddarparu cyfleoedd chwarae
- i ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at blant a'u presenoldeb yn yr awyr agored yn chwarae yn eu cymunedau.

**Sylwer:** mae gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol o dan adran 11(4) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i gyhoeddi a diweddaru gwybodaeth am gyfleoedd chwarae.



## 5.7 Mater E

Mae gofyn i awdurdodau lleol a'u partneriaid ymgymryd â'r swyddogaethau rheoli a chyflawni, neu sicrhau'r swyddogaethau rheoli a chyflawni, sy'n angenrheidiol er mwyn darparu cyfleoedd chwarae digonol.

Dylai'r gweithlu chwarae feddu ar y cymwysterau sy'n ofynnol o dan **Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir** a'r cymwysterau cydnabyddedig a dderbynnir yn y **Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru** a gyhoeddir gan y Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae (neu unrhyw restrau sy'n disodli'r rhestr hon), neu gael cymorth i ennill y cymwysterau hynny, a bodloni gofynion eraill a bennir gan gyrff arolygu a rheoleiddio cysylltiedig eraill gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru. Dylai'r awdurdod lleol gefnogi'r broses o ddatblygu gweithlu chwarae, gan gynnwys a hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill o fewn y gweithlu plant, gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned, yn unol â'r **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol** ar gyfer y sector.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddarparu gwybodaeth am strwythur sefydliadol y maes polisi sy'n rheoli'r agenda chwarae a'r gweithlu chwarae, ac ystyried:

- i ba raddau y mae strwythur a maint y gweithlu chwarae (polisi a chyflawni) yn gallu cynnig cyfleoedd chwarae digonol i blant yn yr ardal
- i ba raddau y mae lefel cymwysterau'r gweithlu chwarae yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer eu rolau
- i ba raddau y mae hyfforddiant ar gael er mwyn i'r gweithlu chwarae ennill y cymwysterau angenrheidiol
- i ba raddau y mae hyfforddiant ar gael er mwyn i wirfoddolwyr a rhieni ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ym maes gwaith chwarae
- i ba raddau y mae hyfforddiant ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r gweithlu plant mewn perthynas â chwarae a chadw plant yn ddiogel
- i ba raddau y mae sesiynau hyfforddiant neu ymwybyddiaeth ar gael i weithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae, er enghraifft cynllunwyr trefi.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hon yn agenda drawsbynciol a bod llawer o weithwyr proffesiynol nad yw eu prif ddiben yn y gwaith o reidrwydd yn ymwneud â chefnogi cyfleoedd chwarae i blant, yn cyflawni rolau sy'n effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar allu plant i fanteisio ar gyfleoedd chwarae. Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried i ba raddau y mae hyfforddiant ar gael i alluogi'r grŵp eang hwn i feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut y gallant helpu i sicrhau bod cyfleoedd chwarae digonol ar gael i blant.

Mae **Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar** 10 mlynedd Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2017 ac **a adolygwyd yn 2024**, yn amlinellu'r ymrwymiad parhaus i gefnogi gweithlu chwarae sydd wedicael hyfforddiant priodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.

## 5.8 Mater F

Dylai'r awdurdod lleol ymgynghori'n eang ar farn plant, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill am ddarpariaeth hamdden a chwarae. Dylai hefyd geisio cynnwys y gymuned gyfan er mwyn creu cymunedau sy'n croesawu cyfleoedd chwarae. Dylai awdurdodau lleol wneud ymdrech i ymgysylltu â grwpiau y gwyddom eu bod yn llai tebygol o allu ymgysylltu heb gymorth wedi'i deilwra. Gall hyn gynnwys y canlynol:

- plant ifanc
- plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol

- plant nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf
- plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- plant o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Mae templed ar gyfer Arolwg Bodlonrwydd Chwarae a chanllawiau pellach ar ymgynghori ar chwarae ar gael yn y Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried y graddau y mae plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan mewn mentrau i wella cyfleoedd chwarae. Gall hyn gynnwys y canlynol:

- fforymau ieuenctid
- cynghorau ysgolion
- cyrff llywodraethu ysgolion
- grwpiau Cymunedol
- nrhyw grwpiau perthnasol eraill.

Gallai mentrau o'r fath gynnwys:

- trefnu bod man chwarae ar gael a'i fod yn addas
- trefnu gweithgareddau chwarae
- hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at blant a chwarae.

Wrth i gyfleoedd chwarae digonol gael eu sicrhau drwy'r gwaith blynyddol o ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae ac yna drwy roi'r Cynlluniau hynny ar waith, dylid ymgynghori â'r plant a'r teuluoedd yr effeithir arnynt gan y camau hynny, gan ofyn iddynt fynegi barn am yr hyn a fydd wedi'i gyflawni, y manteision a fydd wedi deillio o gynnig mwy o gyfleoedd chwarae, a chamau i'w cymryd er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol. Y disgwyl yw y bydd yr awdurdodau lleol yn defnyddio'r dulliau sydd ganddynt eisoes o sicrhau cyfraniad plant ac ymgynghori â theuluoedd er mwyn cyflawni hyn, os ydynt yn effeithiol o ran casglu safbwyntiau'r rhai yr effeithir arnynt.



## 5.9 Mater Ff

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir i blant a chreu cymdeithas sy'n croesawu plant ac yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae a gweithgareddau hamdden y maent yn eu dewis o'u gwirfodd, mae angen polisïau a chamau gweithredu ar draws sawl maes polisi er mwyn cyfrannu at y diben hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bod chwarae yn bwysig ynddo'i hun a hefyd bod gweithwyr proffesiynol a phobl eraill sy'n gweithio mewn meysydd gwasanaeth i blant yn ei ystyried yn bwysig mewn agendâu polisi eraill, megis dulliau addysgu a dysgu (addysgeg); llesiant a datblygiad plant; dysgu drwy brofiad; gweithgarwch corfforol; ac mewn rhai cyd-destunau, yn fath o therapi. Gall cyfleoedd chwarae a arweinir gan blant hefyd helpu i gyflawni'r nod yn y meysydd hyn.

Dylai'r awdurdod lleol ystyried pob un o'i agendâu polisi o ran eu heffaith bosibl ar chwarae plant a chynnwys targedau a chamau gweithredu i wella cyfleoedd chwarae i blant ym mhob strategaeth a pholisi o'r fath.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried i ba raddau y mae'r meysydd polisi isod yn ystyried cyfleoedd chwarae i blant ac yn cynnwys camau i'w gwella. Dylai hyn hefyd gwmpasu unrhyw agendâu eraill yr awdurdod lleol sy'n effeithio ar blant. Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddangos bod yr awdurdod wedi ystyried y meysydd polisi hynny naill ai drwy ddarparu gwybodaeth gysylltiedig neu drwy groesgyfeirio at y manylion am chwarae yn y cynllun cysylltiedig.

Wrth fynd ati i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, rhaid i'r awdurdod lleol roi ystyriaeth lawn i'w Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac i'w Gynllun Gweithredu Chwarae, gan ddangos pa gamau y mae'n eu cymryd bob blwyddyn i wella cyfleoedd chwarae ym mhob un o'r meysydd polisi hyn. Dylai pob maes polisi a maes cyflawni adrodd i'r Grŵp Monitro Chwarae ar y cynnydd a fydd wedi'i wneud o ran cymryd y camau a chyrraedd y targedau a amlinellir yn y cynllun.

Dylai'r Grŵp Monitro Chwarae sicrhau bod yr holl feysydd polisi'n cydweithio yn hyn o beth. Dylai'r awdurdod lleol edrych ar y cyllidebau ar gyfer y meysydd polisi isod er mwyn gweld sut y gellir eu defnyddio i gyflawni'r camau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Chwarae er mwyn gwella cyfleoedd chwarae yn y maes polisi hwnnw.

### Meysydd polisi i'w hystyried yn yr asesiad:

#### Addysg/ysgolion – y Cwricwlwm i Gymru

Un o gryfderau sylweddol y Cwricwlwm i Gymru yw ei fod wedi'i adeiladu ar sail egwyddorion dysgu seiliedig ar chwarae, sy'n cydnabod bod plant ar eu mwyaf hyderus a galluog pan fyddant yn chwarae ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llawn chwarae. Bydd plant yn cael cyfle i brofi cyfleoedd dysgu seiliedig ar chwarae ar gyfer eu haddysg yn yr ysgol neu mewn meithrinfa nas cynhelir a ariennir (lleoliad gofal plant), cyn pontio i'r ysgol pan fyddant yn cyrraedd yr oedran statudol.

Mae ysgolion yn rhoi cyfle pwysig i blant chwarae yn ystod y diwrnod ysgol ac am gyfnodau cyn ac ar ôl eu gwersi. Gallant hefyd gynnig lle gwerthfawr i blant chwarae dros y penwythnos ac yn ystod y gwyliau os yw trefniadau'r ysgol yn caniatáu hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod yr awdurdodau lleol yn cynghori ysgolion i ddarparu mannau chwarae o ansawdd uchel a digon o amser i blant chwarae yn ystod y diwrnod ysgol ac i roi ystyriaeth lawn i agor y ddarpariaeth honno y tu allan i oriau dysgu.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chware asesu:

- i ba raddau y darperir amgylchedd chwarae diddorol i blant ar gyfer egwyliau yn ystod diwrnod ysgol
- i ba raddau y mae ysgolion yn darparu cyfleoedd chwarae y tu allan i amser ysgol, gan gynnwys cyn yr ysgol, gyda'r nos; dros y penwythnos ac yn ystod gwyliau; yn ogystal â mynediad agored i diroedd ysgolion a defnyddio'r safleoedd ar gyfer gweithgareddau
- i ba raddau y mae ysgolion yn annog plant i gerdded neu seiclo i'r ysgol

- i ba raddau y mae plant yn cael egwyliau chwarae yn y bore, amser cinio ac yn y prynhawn.

### Cynllunio Gwlad a Thref

Mae cynllunio gwlad a thref yn bwysig o ran darparu mannau chwarae i blant. Dylid mynd ati, wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, i asesu'r mannau agored sydd ar gael. Dylid asesu a yw strydoedd a mannau agored yn addas at ddibenion chwarae, a dylid mapio darpariaeth a chyfleoedd chwarae ffurfiol ac anffurfiol. Dylai'r cynllun datblygu ddangos sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu darparu mannau chwarae mewn ardaloedd preswyl, mewn cymdogaethau, a chanol trefi neu ddinasoedd os yw'r asesiad wedi dangos nad yw'r ddarpariaeth yn ddigonol.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chware asesu:

- i ba raddau y darperir cyfleoedd i blant chwarae wrth fynd ati i gynllunio'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys tai a defnydd o fannau cyhoeddus a mannau agored
- i ba raddau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion plant o bob oed o ran chwarae yn yr awyr agored.

### Traffig a thrafnidiaeth

Mae rheoli traffig a gwasanaethau trafnidiaeth yn bwysig er mwyn i blant fedru cerdded, seiclo neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd y mannau lle maent yn chwarae neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chware asesu:

- i ba raddau y gall plant chwarae mewn mannau cymunedol ac a oes llwybrau diogel lle gallant gerdded, seiclo neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn manteisio ar gyfleoedd chwarae ac ar ddarpariaeth hamdden ac er mwyn cyrraedd yr ysgol
- i ba raddau y mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cydnabod pwysigrwydd strydoedd a ffyrdd lleol a llwybrau cerdded a beicio o ran cynnig cyfleoedd chwarae i blant o bob oed a gallu
- i ba raddau y mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn nodi ffyrdd o asesu anghenion pob grŵp, gan gynnwys y rheini sy'n aml ar y cyrion.



### Iechyd a lles

Yn y strategaeth **Pwysau Iach Cymru Iach**, gall darparu cyfleoedd chwarae o ansawdd hefyd wneud cyfraniad sylweddol at agendâu ar gyfer y gymuned gyfan, gan gynnwys:

- **drwy ddarparu** amgylcheddau diogel i blant ac eraill
- **datblygu cynaliadwy** – drwy ddarparu amgylcheddau sy'n denu teuluoedd i weithio a byw mewn ardaloedd sy'n diwallu anghenion y teulu cyfan dros gyfnod o amser
- **tlodi plant** – drwy ddarparu mwy o gyfleoedd chwarae yn y gymuned, er mwyn cefnogi iechyd a llesiant.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod chwarae egnïol yn gwneud cyfraniad mawr at iechyd a llesiant plant. Mae chwarae egnïol, yn enwedig yn yr awyr agored, yn helpu plant i ddatblygu'n gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol. Mae'n eu helpu i ddatblygu esgyrn a chyhyrau cryf, yn gwella eu sgiliau a'u cydsymud, ac yn gwneud iddynt deimlo'n well amdanynt eu hunain. Gall hyd yn oed eu helpu i gysgu'n well. Mae'r dystiolaeth yn dangos ei fod yn cyfrannu at iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant ac yn ffordd o leihau gordewdra mewn plant. Mae chwarae egnïol yn ffordd allweddol o gyfrannu tuag at **Ganllawiau Prif Swyddogion Meddygol y DU ar Weithgarwch Corfforol**. Dylai awdurdodau lleol fynd ati i sicrhau bod chwarae yn cael ei ystyried yn llawn wrth ddarparu ar gyfer cymuned iach.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chware asesu:

- i ba raddau y mae'r cynlluniau a'r agenda sydd gan yr awdurdod lleol i hyrwyddo iechyd a lles yn cydnabod pa mor bwysig yw cyfleoedd chwarae a gweithgareddau hamdden a ddewisir o wirfodd i iechyd corfforol, iechyd meddwl ac iechyd cymdeithasol plant a'u teuluoedd
- i ba raddau y mae cynlluniau o'r fath yn gwella cyfleoedd chwarae i blant er mwyn hyrwyddo'u hiechyd a'u lles
- i ba raddau y mae cynlluniau o'r fath yn cyfrannu at Ganllawiau Prif Swyddogion Meddygol y DU ar Weithgarwch Corfforol.

### Tlodi plant

Gall plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn tlodi wynebu rhwystrau ariannol, ymarferol ac amgylcheddol i gael cyfleoedd i chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cadarnhaol. Pan gynhaliwyd **ymarfer ymgysylltu cyn ymgynghori ar ein Strategaeth Tlodi Plant i Gymru** gyda mwy na 3,200 o bobl, gan gynnwys mwy na 1,400 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, roedd cyfleoedd i chwarae yn fater o bwys. Dywedodd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrthym eu bod am gael cyfleoedd yn y cymunedau lle maent yn byw i chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgareddau hamdden a gweithgareddau i'r teulu sy'n cefnogi eu llesiant meddyliol a chorfforol. Yn gysylltiedig â hyn, soniodd plant a phobl ifanc am bwysigrwydd mannau gwyrdd glân a gofalu am yr amgylchedd.

Dyna pam mae ymrwymiad yn **Strategaeth Tlodi Plant Cymru** i fwrw ati, ar y cyd â phartneriaid, i gynnig mwy o gyfleoedd chwarae, chwaraeon ac ieuenctid yn y gymuned a chyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau'r celfyddydau, diwylliant ac adnoddau naturiol, yn ogystal â gweithgareddau cost isel i deuluoedd i gefnogi iechyd a llesiant.

Mae chwarae yn elfen hanfodol yn natblygiad plant ac yn rhywbeth sy'n gallu bod yn ffactor amddiffynnol gref ym mywydau plant. Gall chwarae warchod plant rhag agweddau negyddol tlodi, a ffynonellau eraill o adfyd yn ystod plentyndod, gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a thrawma, drwy eu helpu i ddatblygu eu hadnoddau mewnol er mwyn meithrin y gallu i ymdopi ag anawsterau ac ansicrwydd yn eu cartref a rhannau eraill o'u bywydau.

Mae tlodi plant yn fater trawsbynciol, a dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y mae'r agenda a'r strategaethau sydd gan yr awdurdod lleol (fel sy'n ofynnol o dan **Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010**) i drechu tlodi yn cydnabod y potensial sydd gan gyfleoedd chwarae i wella lles meddyliol plant

- i ba raddau y mae cyfleoedd chwarae ar gael i bob plentyn ni waeth beth fo incwm y teulu.

**Polisïau a mentrau ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant a Theuluoedd**

Mae chwarae'n hanfodol i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar ac yn hollbwysig i'w hiechyd, eu dysgu a'u datblygiad. Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i bob baban, plentyn bach, eu teuluoedd a'u cymunedau ffynnu ynddo, drwy gael cyfleoedd a phrofiadau wedi'u cyfoethogi. Mae ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru yn rhoi'r plentyn a datblygiad plant wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'n ymwneud â datblygu a chyflawni dull cyson o feithrin, dysgu a datblygu, drwy ddarparu cyfleoedd gofal plant ac addysg hygyrch a chynhwysol sy'n seiliedig ar chwarae o ansawdd uchel.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ar gyfer pob plentyn 0-5 oed, boed hynny yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chware asesu:

- i ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod pwysigrwydd chwarae yn y maes polisi hwn, a'r fantais y gall amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ei chynnig i rieni a theuluoedd
- i ba raddau y mae cynlluniau a gwasanaethau ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, rhaglen Dechrau'n Deg a chynlluniau a gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae sy'n cyfoethogi bywydau plant.



### Cymorth i rieni a theuluoedd

Mae rhaglenni cymorth i rieni a theuluoedd yn cydnabod pwysigrwydd chwarae. Maent yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sesiynau sy'n cefnogi chwarae, megis 'aros a chwarae', 'iaith a chwarae' a 'rhifau a chwarae', y maent i gyd yn helpu rhieni i deimlo'n fwy hyderus am chwarae gyda'u plentyn a'i helpu i ddysgu drwy chwarae.

### Polisïau a mentrau sy'n pontio'r cenedlaethau

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod gweithgareddau a rhaglenni sy'n pontio'r cenedlaethau yn gallu bod o fudd i blant ac i bobl hŷn. Gall darpariaeth chwarae helpu i hyrwyddo'r cysylltiadau hyn rhwng y cenedlaethau.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chware asesu:

- i ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn rhoi gwerth ar waith i bontio'r cenedlaethau wrth ddarparu cyfleoedd chwarae a hamdden i blant a phobl mewn grwpiau oedran hŷn
- i ba raddau y mae polisïau'n caniatáu i bobl o bob oed – yn blant, yn bobl ifanc yn eu harddegau, ac yn oedolion i:
  - ddefnyddio'r un man ar wahân ar adegau gwahanol o'r dydd
  - rhannu'r un man ar yr un pryd.

### Datblygu cymunedol

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwaith datblygu cymunedol yn werthfawr er mwyn creu cymdeithas deg a chyfartal lle mae anghenion y gymuned yn cael eu deall a'u diwallu. Mae cyfleoedd i blant chwarae yn rhan bwysig o ddiwallu anghenion cymunedau.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chware asesu:

- i ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod hawliau plant i chwarae yn eu cymunedau
- i ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo cymunedau sy'n cefnogi ac yn cynnig cyfleoedd chwarae i'w plant
- i ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo cymunedau sy'n gwerthfawrogi'r manteision y mae cyfleoedd chwarae yn eu cynnig i blant a'r gymuned gyfan, a hefyd eu manteision o ran hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

### Diogelwch cymunedol

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chware asesu:

- i ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod hawliau plant i chwarae yn eu cymunedau ac yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer gwneud hynny
- i ba raddau y mae'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn ymdrin â diogelwch cymunedol ac atal trais yn fwy cyffredinol yn ystyried hawl plant i chwarae yn eu cymunedau ac yn cynnwys camau gweithredu i ddarparu amgylchedd diogel i blant chwarae yn eu cymunedau.

### Iechyd a diogelwch

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chware asesu:

- i ba raddau y mae polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yr awdurdod lleol yn croesawu egwyddor asesiadau manteision a risg, sydd i'w gweld yn **Natganiad Lefel Uchel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** ar reoli risgiau wrth chwarae.

# 6. Datblygiadau yn y dyfodol

Nodir y manylion ynghylch asesu a oes cyfleoedd chwarae digonol a sicrhau'r cyfleoedd hynny i'w gweld yn y Canllawiau Statudol diwygiedig hyn. Mae'n cynnwys manylion ynghylch sut i gynnal yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, datblygu a gweithredu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae, monitro prosesau a chyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cysylltu ag arweinwyr chwarae'r awdurdodau lleol, Chwarae Cymru a rhanddeiliaid eraill i drafod y gwaith o ddatblygu a diweddaru'r canllawiau, i fonitro cynnydd ac i drafod mentrau eraill lle gellir cydweithio a gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill.

Bydd adnoddau eraill i helpu awdurdodau lleol a hyrwyddo'r agenda chwarae yn ymddangos o bryd i'w gilydd ar wefan Llywodraeth Cymru.



# Atodiad A – Polisi Llywodraeth Cymru

## Polisi chwarae

Cymru oedd y wlad gyntaf i ddeddfu i gefnogi chwarae plant, gan warantu hawl plant i chwarae drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn sicrhau cyfleoedd digonol, drwy'r Ddyletswydd Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, deddfodd Llywodraeth Cymru i gefnogi chwarae plant. **'Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae'** yw'r canllawiau statudol sy'n helpu awdurdodau lleol i asesu a, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, sicrhau digon o gyfleoedd i blant chwarae yn eu hardaloedd. Mae'r canllawiau statudol diwygiedig yn disodli **fersiwn 2014**, sy'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae i blant yng Nghymru a sut y dylai awdurdodau lleol asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

Yn ystod hydref 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Gweinidogol o Chwarae a hwyluswyd gan grŵp llywio allanol a oedd yn cynnwys arbenigwyr trawsbroffesiynol ar chwarae a gwaith chwarae. Nod yr adolygiad oedd asesu lle mae Cymru arni o ran y polisi chwarae a llywio sut mae Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn bwrw ymlaen â'r agenda chwarae yn y dyfodol. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried y cynnydd a wnaed i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae ac a yw'r weledigaeth yn berthnasol o hyd. Nododd y camau roedd angen eu cymryd i fwrw ymlaen â'r agenda chwarae er mwyn gwireddu'r weledigaeth.

Croesawodd Llywodraeth Cymru **Adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Chwarae**, ac ym mis Hydref 2023 cyhoeddodd **ymateb i argymhellion y Grŵp Llywio**, a oedd yn amlinellu'r camau gweithredu y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i weithredu'r argymhellion.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i roi gwerth mawr ar chwarae a'i bwysigrwydd ym mywydau plant yn ein cymdeithas ac mae'n ymrwymedig i barhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yng Nghymru i fod yn wlad lle mae cyfle i chwarae sy'n rhoi'r cyfle a'r rhyddid i blant a phobl ifanc chwarae.

## Cadw plant yn ddiogel

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob unigolyn, grŵp a sefydliad sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru ddilyn y cyngor a roddwyd yn **Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: Cod Ymarfer Diogelu**. Bwriedir i'r cod hwn helpu pobl i ddeall y trefniadau diogelu a ddylai fod ar waith i weithredu'n ddiogel a diogelu pob un sy'n cymryd rhan.

Mae **modiwl ar-lein Grŵp A Diogelu Gofal Cymdeithasol Cymru** yn cynnig adnodd am ddim i bawb sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc fel rhan o'u rolau.

Wrth ymgymryd â gweithgareddau digonolrwydd cyfleoedd chwarae sy'n ymwneud â phlant, dylid cyfeirio at **Weithdrefnau Diogelu Cymru** sy'n helpu pobl i ddeall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant a phobl ifanc yng Nghymru.

## Y Rhaglen Lywodraethu

Mae **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymrwymiadau uchelgeisiol y byddwn yn eu cyflawni dros y blynyddoedd rhwng 2021 a 2026. Bydd y rhain yn mynd i'r afael â'r heriau a wynebwn ac yn gwella bywydau pobl ledled Cymru.

## Strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach (2019)

Mae strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach Llywodraeth Cymru yn ymestyn dros gyfnod o 10 mlynedd (2020-2030) er mwyn cydnabod y newidiadau systemig sydd eu hangen i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau gordewdra ar boblogaeth Cymru yn effeithiol.

Mae'r strategaeth yn rhoi ffocws penodol ar blant a'r blynyddoedd cynnar. Mae maeth da a chynyddu lefelau chwarae egnïol yn hollbwysig er mwyn lleihau gordewdra yn ystod plentyndod. Mae'r dystiolaeth yn dangos pan fydd gan blant bwysau iach, maent yn teimlo'n well am eu hunain, mae'n haws iddynt chwarae a dysgu, ac maent yn fwy tebygol o dyfu ifyny'n iach hefyd. Mae'r strategaeth yn nodi ymrwymiadau ar gyfer camau gweithredu cydgysylltiedig i leihau gordewdra ymhlith mamau a hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach o oedran ifanc; o feichiogrwydd iach ac annog bwydo ar y fron, i alluogi i sgiliau gael eu dysgu o fewn teuluoedd ac mewn lleoliadau gofal plant a chwarae.

## Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

Mae'r ffordd rydym yn ymdrin â chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yn cydnabod bod plentyndod yn werthfawr, bod babanod a phlant bach yn chwarae, yn dysgu ac yn tyfu'n gyson mewn ffyrdd gwahanol, a bod angen gofalu amdanynt a'u meithrin er mwyn cefnogi'r datblygiad hwnnw. Mae'n bwysig cofio hefyd bod pob plentyn yn unigolyn ag anghenion gwahanol, a bod gan rai plant anghenion mwy cymhleth nag eraill. Mae ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru yn rhoi'r plentyn a datblygiad plant wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'n ymwneud â datblygu a chyflwyno ffordd gyson o feithrin, dysgu a datblygu, drwy ddarparu cyfleoedd gofal plant ac addysg hygyrch, a chynhwysol sy'n seiliedig ar chwarae o ansawdd uchel. Mae'n canolbwyntio ar ddarpariaeth ar gyfer pob plentyn 0–5 oed, boed hynny yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru – Hwb (llyw.cymru)

## Cymraeg 2050

'Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr Cymraeg' yw strategaeth Gweinidogion Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Fe'i paratowyd yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y sylfeini sy'n bodoli eisoes ac yn ein tywys i'r cam nesaf yn ein taith iaith. Rydym wedi nodi tair thema strategol i wireddu'r weledigaeth hon.

1. **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.**
2. **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.**
3. **Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.**

Mae'r targedau cyffredinol ar gyfer y strategaeth hon fel a ganlyn:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

Y nod hirdymor ar gyfer ein darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yw cyrraedd sefyllfa lle mae plant dan bump oed wedi cael digon o gyswllt â'r Gymraeg i allu dechrau ar eu taith i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Prif nod strategaeth Cymraeg 2050 mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar yw ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

## Cwricwlwm i Gymru – Canllawiau ar alluogi dysgu

Chwarae yw sut mae plant ifanc yn gwneud synnwyr o'r byd ac mae'n gyfrwng pwerus ar gyfer dysgu sy'n helpu i gefnogi sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, yn ogystal â'u sgiliau cymdeithasol a chorfforol. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn sicrhau bod plant yn elwa ar ddysgu cyfannol ac ystyrlon sy'n cefnogi eu datblygiad. Mae Cwricwlwm i Gymru – Canllawiau ar alluogi dysgu yn nodi sut mae oedolion sy'n galluogi dysgu yn rhoi profiadau diddorol mewn amgylcheddau effeithiol ac y byddant yn defnyddio eu gwybodaeth a chyfleoedd i arsylwi ar blant i gynllunio profiadau gwirioneddol sy'n berthnasol i ddiddordebau plant drwy ddulliau seiliedig ar chwarae.

## Cymorth Rhianta

Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni a gofalwyr, a phenderfynu ar union natur y gwasanaethau lleol a ddarperir yn dibynnu ar amgylchiadau lleol a'r anghenion a nodwyd yn eu hardaloedd. Mae Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru wrth ddarparu cymorth rhianta, gan gynnwys darparu sesiynau i gefnogi chwarae.

Mae ein hymgyrch a'n gwefan Magu Plant. Rhowch Amser Iddo yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth arbenigol am fagu plant mewn modd cadarnhaol i rieni a gofalwyr â phlant hyd at 18 oed. Mae'r wefan ddwyieithog yn darparu adnoddau a gwybodaeth i rieni am siarad, gwrando a chwarae ac yn eu cyfeirio at sefydliadau eraill y gwyddys eu bod yn hyrwyddo manteision chwarae, fel bod pob plentyn yn cael cyfle i ffynnu a chael plentyndod hapus ac iach.

## Teuluoedd yn Gyntaf

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu systemau cymorth amlasiantaethol i deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais ar gymorth cynnar ac atal ac mae'n gweithio gyda'r teulu cyfan i atal problemau rhag troi'n argyfwng.

Mae gan awdurdodau lleol gryn dipyn o hyblygrwydd wrth lunio gwasanaethau lleol a chânt eu hannog i ganolbwyntio ar gynnig mwy o gyfleoedd chwarae a hamdden, gan gynnwys darpariaeth chwarae cyn ysgol. Gall awdurdodau lleol hefyd gomisiynu gwasanaethau fel rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a all gynnwys gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar chwarae.

## Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru (2015)

Dogfen ganllaw yw hon, sy'n helpu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau priodol am gost resymol i Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd preswyl awdurdodau lleol yng Nghymru. Dylid ei defnyddio fel sail i helpu awdurdodau i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud yn benodol â'u hamgylchiadau lleol eu hunain. Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru orfodi atebion unffurf, oherwydd gall sefyllfaoedd amrywio gryn dipyn rhwng rhanbarthau yng Nghymru.

## Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru (2018)

Ein Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yw y gall pawb fwynhau chwaraeon am oes. Rydym eisiau i Gymru fod yn genedl egnïol gyda chymaint o bobl â phosibl yn cael eu hysbrydoli i fod yn egnïol drwy chwaraeon. Er mwyn cefnogi'r weledigaeth, mae strategaeth Chwaraeon Cymru yn cynnwys bwriad strategol i sicrhau bod pob person ifanc yn meddu ar y sgiliau, yr hyder a'r cymhelliant i'w galluogi i fwynhau a datblygu drwy chwaraeon; gan roi'r sylfeini iddynt fyw bywyd egnïol, iach a chyfoethog.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, daeth y sector chwaraeon (Chwaraeon Cymru, Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon, Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Chwaraeon), Blynyddoedd

Cynnar Cymru a Chwarae Cymru ynghyd, mewn cydweithrediad, i greu'r **Fframwaith Sylfeini Cymru**. Mae Fframwaith Sylfeini Cymru yn ganllaw arfer da ar gyfer yr holl alluogwyr ledled Cymru sy'n ymwneud â threfnu, hyrwyddo a chyflwyno gweithgareddau corfforol a chwaraeon i blant 3–11 oed. Mae'n canolbwyntio ar y plentyn ac mae wedi'i rannu'n adrannau sy'n ymdrin â diogelwch a chynhwysiant, mwynhad, a datblygiad.

Gellir ei gymhwyso mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys rhai allgyrsiol, cymunedol a llawr gwlad, ac mae'n darparu'r sylfaen i alluogwyr wneud y canlynol:

- deall sut dylai'r 'cynnig' i blant edrych a theimlo
- creu amgylcheddau sy'n cefnogi cyfnod datblygiad corfforol, cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plentyn
- cynnig cyfleoedd aml-chwaraeon sy'n ddiogel, yn bleserus ac yn ddatblygiadol
- hyrwyddo symudiadau dyddiol a phrofiadau gweithgarwch corfforol allweddol sy'n cyfrannu at ddatblygiad iach
- gwerthfawrogi chwarae sy'n cael ei arwain gan blant gymaint â chyfleoedd sy'n cael eu hwyluso a'u hysgogi gan oedolion
- cydnabod cyfnodau datblygiad biolegol, ffisiolegol a niwrolegol plant er mwyn llywio'r ddarpariaeth o gyfleoedd (yn berthnasol i beth yw ein rôl wrth ddarparu'r cyfleoedd)
- cefnogi adlewyrchiad beirniadol o'r cyfleoedd chwaraeon rydym yn eu dylunio, eu hwyluso, eu hyrwyddo a'u darparu.

## Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2024)

Mae'r **Strategaeth Tlodi Plant** yn pennu cyfeiriad camau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant dros y degawd nesaf neu fwy ac i wireddu ein dyheadau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau na'u cefndir. Mae gan y strategaeth 5 Amcan, 5 Blaenoriaeth a 19 o ymrwymiadau cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys, o dan Flaenoriaeth 3, ymrwymiad i:

"Bwrw ati, ar y cyd â phartneriaid, i gynnig mwy o gyfleoedd chwarae, chwaraeon ac ieuenctid yn y gymuned a chyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau'r celfyddydau, diwylliant ac adnoddau naturiol, yn ogystal â gweithgareddau cost isel i deuluoedd i gefnogi iechyd a llesiant."

## Canol Trefi: Datganiad Sefyllfa (2023)

Mae **Canol trefi: datganiad sefyllfa** yn amlinellu'r prif heriau a wynebir gan ganol trefi a chyfres o gamau gweithredu cenedlaethol i'w cymryd ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a chan Sefydliadau Rhanddeiliaid er mwyn ymdrin â'r materion cymhleth hyn.

Mae'n rhychwantu nifer o feysydd polisi, gan gynnwys adfywio, tai, buddsoddi seilwaith ehangach, yr economi, cynllunio, yr amgylchedd, a thrafnidiaeth. Mae'n disgrifio'r hyn y gellir ei wneud ar lefel genedlaethol i osod y sylfeini ar gyfer newid a'i gwneud yn bosibl i wasanaethau cyhoeddus allweddol gael eu darparu'n lleol yng nghanol trefi.

## Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar (2017)

Mae'r Cynllun yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatblygu gweithlu gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar medrus sy'n rhan o broffesiwn y mae parch mawr iddo fel dewis gyrfa, ac sy'n cael ei gwerthfawrogi gan ein cymdeithas am y rôl hanfodol y mae'n ei chwarae i gefnogi dysgu a datblygiad ein plant. Cyhoeddwyd **Adolygiad a Diweddariad** o'r Cynllun yn 2024.

## Polisi Cynllunio Cymru (2024)

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir. Caiff ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (a restrir yn yr Atodiad). Rhoddir cyngor ar weithdrefnau mewn cylchlythyrau ac mewn llythyrau egluro polisi. Mae'n ymgorffori ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy yn y system gynllunio fel y gall chwarae rôl briodol i o ran creu dyfodol cynaliadwy.

## Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022)

Nod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yw gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac mae'n amlinellu gweledigaeth o Gymru Wrth-hiliolerbyn 2030.

Fe'i datblygwyd ar y cyd â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac mae'n cynnwys 11 o nodau a chamau gweithredu ar gyfer y sector gofal plant a gwaith chwarae. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar wella'r profiad yn y gweithle, cynnig darpariaeth fwy diwylliannol briodol a gwella profiad plant.

## Ysgolion bro

Mae ysgolion bro yn chwarae rôl amlwg yn y gwaith o fynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyrhaeddiad addysgol. Mae dysgu ac addysg o ansawdd uchel yn cael effaith fawr ar ddeilliannau dysgwyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ond mae amgylchedd y cartref a'r gymuned ehangach hefyd yn ddylanwadau sylweddol. Drwy gydweithio rhwng yr ysgol, y cartref a'r gymuned, gallwn gefnogi ein plant a'n pobl ifanc yn fwy effeithiol.

Rydym am i bob ysgol yng Nghymru fod yn ysgol fro, gan adeiladu partneriaethau cryf â theuluoedd, ymgysylltu â'r gymuned ehangach a chydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill. Er mwyn cefnogi ysgolion, rydym wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau i ysgolion bro, gan gynnwys cyfres o astudiaethau achos.

## Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2019)

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn nodi ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gymryd camau i wireddu gallu a photensial gwaith ieuenctid yng Nghymru yn llawn.

Mae'r strategaeth yn cynnwys gweledigaeth i sicrhau bod 'pob person ifanc yn ffynnu, ac yn cael mynediad at gyfleoedd a phrofiadau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n rhoi mwynhad ac yn cyfoethogi eu datblygiad personol drwy waith ieuenctid'.

## Fframwaith NYTH ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant

Mae fframwaith NYTH Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau dull system gyfan o ddatblygu gwasanaethau iechyd a llesiant meddwl ar gyfer plant o bob oedran, eu rhieni a'u gofalwyr.

Pan ofynnodd Llywodraeth Cymru i bobl ifanc pa eiriau oedd yn disgrifio orau sut y dylai cymorth iechyd meddwl a llesiant deimlo, eu hawgrym nhw oedd NYTH:

- **Rhoi Nerth –** rhoi nerth / grymuso
- **Ymddiried –** dibynadwy ac yno i chi
- **Tyfu'n ddiogel –** tyfu'n ddiogel
- **Hybu –** annog.

Mae'r fframwaith yn cynnwys chwe egwyddor graidd ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant. Un o'r egwyddorion hyn yw cymunedau diogel a chefnogol sy'n nodi bod angen i blant gael amser, lle a chaniatâd i chwarae a chymdeithasu ac y dylai oedolion sy'n cefnogi iechyd meddwl plant ystyried a chefnogi'r hawl hon.

Er mwyn helpu sefydliadau i roi'r fframwaith NYTH ar gyfer iechyd meddwl a llesiant ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu hyfforddiant ac adnodd hunanasesu.

## Yr Economi Gylchol yng Nghymru

Nodir strategaeth Llywodraeth Cymru i wneud yr economi gylchol yn realiti yng Nghymru yn Mwy nag ailgylchu (2021). Mae'n seiliedig ar chwe thema graidd ac wyth prif gam gweithredu.

Nod economi gylchol yw sicrhau bod adnoddau a deunyddiau yn cael eu defnyddio am gyn hired â phosibl ac osgoi pob gwastraff. Yn ogystal â helpu i gyflawni canlyniadau amgylcheddol pwysig, fel y nodir ar dudalen 6 o'r strategaeth, "gall hefyd wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol. Yn economaidd, drwy ddefnyddio dull cylchol sy'n lleihau cadwyni cyflenwi, gall wella effeithlonrwydd, creu swyddi a'n gwneud yn fwy cystadleuol. O ran manteision cymdeithasol, bydd byrhau cadwyni cyflenwi a lleihau'n hallyriadau yn lleihau'r effeithiau ar iechyd a achosir gan lygredd ac yn helpu i ddosbarthu adnoddau'n decach. Bydd hynny hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i gymunedau ddod ynghyd i rannu adnoddau ac adfywio lle rydym yn byw."

Bydd angen i bob rhan o lywodraeth a phob sector weithredu, gan gynnwys y sector cyhoeddus yng Nghymru, i gefnogi'r newid tuag at economi fwy cylchol.

Gall fod cyfleoedd, wrth sicrhau darpariaeth chwarae, neu ddefnyddio "rhannau rhydd", i gyd-fynd â'r strategaeth ar yr economi gylchol. Er enghraifft, un o brif gamau gweithredu'r strategaeth yw rhoi blaenoriaeth, wrth gaffael, i ddefnyddio nwyddau a chynnyrch sydd wedi'u gwneud o ddeunydd wedi'u hailweithgynhyrchu, eu hadnewyddu a'u hailgylchu neu sy'n dod o ddeunydd carbon isel a chynaliadwy fel pren. Bydd hyn yn gynyddol bwysig er mwyn helpu i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd a natur a gall hefyd arwain at fanteision ehangach o ran cost.

**Cefnogi caffael cynaliadwy yn y sector cyhoeddus yng Nghymru | WRAP**



# Atodiad B: Deddfwriaeth

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae'r hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden wedi'i hymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 31.1 o'r Confensiwn yn nodi "Mae Partïon Gwladwriaethau yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a chael hamdden, i chwarae ac ymroi i weithgareddau adloniadol sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gymryd rhan ddirwystr mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau". http://www.unicef.org.uk/UNICEFs-Work/Our-mission/UN-Convention/

## Ddeddf Plant (2004)

Rhoddodd y Ddeddf hon ddyletswydd ar holl awdurdodau lleol Cymru i gydweithredu â'i gilydd ac â'u partneriaid (fel y nodir yn adran 25 o'r Ddeddf) er mwyn gwneud trefniadau i hybu lles plant. Nododd mai un o ddibenion y cydweithredu hwn oedd gwella lles plant mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a hamdden ac yn sgil hynny, mewn perthynas â chwarae. www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/31/contents

## Deddf Gofal Plant (2006)

Mae adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau neu gyfleusterau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys cyfleusterau chwarae a chwaraeon a chyfleusterau hamdden eraill, Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrannu at yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

## Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016

Mae'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant yn eu hardal. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrannu at yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf, ynghyd â'r rheoliadau a'r codau ymarfer a wneir oddi tani, yn darparu'r sylfaen i fframwaith statudol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru i gefnogi pobl o bob oed fel rhan o'u teuluoedd a'u cymunedau.

Egwyddorion hanfodol y Ddeddf yw:

- **Llais a rheolaeth –** rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd y gofal, a rhoi llais a rheolaeth i'r unigolyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau sy'n hybu ei lesiant.
- **Atal ac ymyrryd yn gynnar –** cynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau fel bod llai o bobl angen gofal critigol.
- **Llesiant –** cynorthwyo pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
- **Cydgynhyrchu –** annog unigolion i gymryd mwy o ran mewn cynllunio a darparu gwasanaethau.

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrannu at ddileu tlodi plant; yn darparu dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant; yn gwneud darpariaeth ynghylch trefniadau i blant gymryd rhan mewn penderfyniadau gan awdurdodau lleol a allai effeithio arnynt; yn gwneud darpariaeth ynghylch gwarchod plant a gofal dydd i blant; yn gwneud darpariaeth sy'n sefydlu timau a byrddau integredig cymorth i deuluoedd; yn gwneud darpariaeth ynghylch gwella safonau mewn gwaith cymdeithasol ar gyfer plant a'r personau sy'n gofalu amdanynt; yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu anghenion plant os oes angen gwasanaethau gofal cymunedol ar eu rhieni neu os oes ganddynt gyflyrau iechyd sy'n effeithio ar anghenion y plant; ac at ddibenion cysylltiedig.

## Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012

Mae'r Rheoliadau hyn a wnaed o dan adran 11(1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (dyletswyddau awdurdodau lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant) yn nodi cynnwys gofynnol asesiad awdurdod lleol o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn ei ardal. Mae'r Rheoliadau yn nodi'r unigolion a'r grwpiau y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â nhw a cheir gofyniad hefyd i gynllun gweithredu gael ei baratoi fel rhan o'r asesiad gan bob awdurdod lleol. Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer amlder yr asesiadau a sut mae'n rhaid i ganlyniadau asesiadau gael eu cyhoeddi.

## Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

Mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 yn diddymu'r amddiffyniad o gosb resymol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, boed hynny gan bobl sy'n byw yng Nghymru neu bobl sy'n ymweld â Chymru.

Mae hyn yn golygu bod cosbi plant yn gorfforol bellach yn anghyfreithlon yng Nghymru, gan gynnwys gan rieni, gan ofalwyr neu gan unrhyw un sy'n gweithredu in loco parentis, mewn unrhyw leoliad. Mae'n rhoi'r un amddiffyniad i blant rhag ymosodiad ag oedolion ac yn cael gwared ar yr amryfusedd a arferai fodoli ynghylch yr hyn a oedd yn gosb gorfforol 'resymol'.

## Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011)

Mae gwaith Llywodraeth Cymru ar hawliau plant yn seiliedig ar ein hymrwymiad i egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r pedair dyletswydd ganlynol:

- i roi sylw dyledus i CCUHP wrth arfer swyddogaethau Gweinidogol
- i baratoi Cynllun Hawliau Plant yn nodi'r trefniadau i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus
- i gyhoeddi "adroddiad cydymffurfio" ynghylch sut mae Gweinidogion wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus, bob 2.5 blynedd
- i gymryd camau priodol i hybu dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o'r CCUHP.

Cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei Sylwadau Terfynol ym mis Mehefin 2023. Roedd y cyhoeddiad yn ffrwyth ei 6ed a'i 7fed adolygiad cyfnodol o'r Deyrnas Unedig fel Gwladwriaeth sy'n Barti ac yn dilyn y Deialog Adeiladol o'r adolygiad a gynhaliwyd yng Ngenefa ym mis Mai 2023.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru **ymateb** i'r argymhellion a rhoi diweddariad ar ein cynnydd yn y meysydd y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, neu lle rydym wedi llunio barn ar yr argymhellion hynny.

## Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r **canllawiau statudol** yn nodi rôl llywodraeth leol a'i phartneriaid, drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i helpu i ddwyn ynghyd arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gynllunio, gweithio, darparu a gwella gwasanaethau ar gyfer eu hardaloedd lleol drwy ffocws hirdymor, cydweithredol.

## Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013)

Mae **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fynd ati'n barhaus i wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr ac i baratoi mapiau sy'n nodi llwybrau sydd ar gael iddynt eu defnyddio ar hyn o bryd ac a fydd ar gael yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr wrth fynd ati i ddylunio cynlluniau ffyrdd newydd (gan gynnwys cynlluniau i wella ffyrdd).

Drwy'r grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, gall awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am arian i gynyddu lefelau teithio llesol ymhlith plant sy'n teithio i'r ysgol ac yn y gymuned ehangach, gwella cyfanheddrwydd cymunedau, a gwella'r amgylchedd ar gyfer cerdded, beicio a sgwtera ger ysgolion.

## Cyllid

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o ffrydiau cyllido a allai fod ar gael i'r awdurdodau lleol er mwyn darparu rhagor o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd. Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ar y rhaglen gyllido, a hynny er mwyn sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen o dan eu portffolios er mwyn gwireddu'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu a diwallu anghenion pobl Cymru. Mae'n bosibl y byddai cynigion i ddarparu rhagor o gyfleoedd chwarae yn gymwys i gael cyllid o dan y rhaglenni hynny, ond byddai angen iddynt gydymffurfio â'r meini prawf cyllido a bod yn faes lle mae'r awdurdod lleol hwnnw wedi nodi bod angen yn lleol.

# Atodiad C: Geirfa

- **Darpariaeth i blant chwarae:** mae darpariaeth chwarae yn cynnig man, mewn amryw o leoliadau dan oruchwyliaeth a heb eu goruchwylio, lle y gall plant ddyfeisio ac ymestyn eu chwarae eu hunain.
- **Mannau agored:** Tir a osodir ac a ddefnyddir gan y cyhoedd at ddibenion hamdden neu sydd o werth i'r cyhoedd. Gall mannau agored fod mor amrywiol â mannau amwynder anffurfiol, mannau eistedd, parcdir cyhoeddus, ardaloedd wedi'u tirlunio, mannau agored megis ardaloedd o goed ac ardaloedd cysgodol. Mae Teipoleg o Fannau Agored wedi'i gynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored.
- **Mannau chwarae dynodedig:** Mannau a ddynodwyd yn benodol er mwyn i blant gael chwarae, a dyna yw eu prif swyddogaeth.
- **Ar garreg y drws:** mannau chwarae y gellir eu gweld o gartref, lle mae plant, yn enwedig plant ifanc, yn gallu chwarae a bod oedolion y maent yn eu hadnabod yn gallu cadw llygad arnynt.
- **Lleol:** Mannau mwy o faint y gall plant sy'n dechrau teithio ar eu pen eu hunain a chyda ffrindiau eu cyrraedd yn ddiogel, heb i oedolion eu tywys, ac y gall oedolion â phlant bach gerdded iddynt yn hawdd.
- **Cymdogaeth:** Man neu gyfleuster mwy o faint y gall plant a phobl ifanc, sy'n gyfarwydd â theithio pellteroedd hwy ar eu pennau'u hunain, ei gyrraedd yn ddiogel a threulio amser yn chwarae ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden anffurfiol gyda'u cymheiriaid a chael ystod ehangach o brofiadau chwarae.
- **Mannau lle y gall plant chwarae neu fan cyhoeddus a rennir:** Ardal lle y gall plant chwarae nad yw wedi'i dynodi'n benodol at ddibenion chwarae ac nad chwarae yw ei phrif swyddogaeth neu eu hunig swyddogaeth.
- **Mannau chwarae cynhwysol:** Darpariaeth chwarae sy'n hygyrch ac yn groesawgar i blant anabl a phlant nad ydynt yn anabl.
- **Ardaloedd chwarae cyrchfan:** Mannau chwarae o fewn safle allweddol, fel parc. Eu nod yw denu teuluoedd a grwpiau tebyg am gyfnodau hwy ac maent yn dueddol o fod o'r un faint neu'n fwy na safleoedd yn y gymdogaeth.
- **Ardaloedd gemau aml-ddefnydd:** Ardal gaeëdig, sy'n defnyddio glaswellt synthetig neu arwyneb caled, lle y gellir chwarae chwaraeon yn ffurfiol neu'n anffurfiol.
- **Clybiau Gofal Plant y tu allan i Oriau Ysgol:** Mae'r rhain yn darparu gofal plant a chyfleoedd chwarae cadarnhaol i blant ysgol rhwng 3 ac 16 oed yn union cyn a/neu ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol. Sesiynau a hwylusir gan Weithwyr Chwarae Cymwys. Caiff clybiau eu rhedeg mewn canolfannau cymunedol megis mewn ysgolion, canolfannau cymunedol, neuaddau eglwys a hefyd o fewn meithrinfeydd dydd. Mae clybiau gofal plant yn cael eu cofrestru gan AGC oni bai mai plant dros 11 oed yn unig y gofelir amdanynt neu lle na ddarperir gofal am fwy na dwy awr y dydd e.e. clwb brecwast a gaiff ei redeg am awr cyn yr ysgol bob bore. Mae clybiau gofal plant yn galluogi rhieni/gofalwyr i ddechrau gweithio, hyfforddiant neu addysg ac yn darparu gofal seibiant i deuluoedd sy'n agored i niwed. O'r herwydd, eu nod yw bod yn gynaliadwy, gan godi ffioedd y gall y gymuned leol eu fforddio.
- **Parciau olwynion/mannau chwarae ar olwynion:** Mannau ar gyfer gweithgareddau ar olwynion megis sglefrfyrddio, llafnrolio a beicio BMX.

- **Strydoedd ysgol:** Ffordd y tu allan i ysgol lle ceir cyfyngiad ar draffig modur ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol yw Stryd Ysgol. Gall cynlluniau Stryd Ysgol gwmpasu rhan o ffordd, ffordd gyfan neu hyd yn oed sawl ffordd ger ysgol. Mae'r cyfyngiadau ar gerbydau modur yn gweithredu bob dydd yn ystod yr wythnos drwy gydol y flwyddyn ysgol (nid digwyddiadau cau ffordd untro ydynt). Ni chaniateir i gerbydau modur fynd i mewn i'r Stryd Ysgol tra bydd yn weithredol ar amseroedd gollwng a chasglu oni bai eu bod wedi cael esemptiad. Mae esemptiadau fel arfer yn cynnwys cerbydau trigolion, deiliaid bathodyn glas a'r gwasanaethau brys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain).
- **Sesiynau chwarae mynediad agored wedi'u staffio:** Gall darpariaeth chwarae Mynediad Agored fod yn ddarpariaeth barhaus neu fyrdymor, a leolir mewn amryw o leoliadau ag adeiladau neu hebddynt. Er bod y term Mynediad Agored yn gymwys i ddarpariaeth gofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru i blant hyd at 12 oed, mae darpariaeth o'r fath fel arfer yn darparu ar gyfer ystod oedran eang o blant. Diben y ddarpariaeth yw cynnig cyfleoedd chwarae wedi'u staffio i blant yn absenoldeb eu rhieni. Ni chyfyngir ar allu'r plant i symud, ac eithrio lle y bo hynny'n gysylltiedig â materion diogelwch ac ni chânt eu rhwystro rhag mynd a dod fel y dymunant. Caiff plant y rhyddid i ddewis pa weithgareddau chwarae y maent am gymryd rhan ynddynt a chyda phwy y maent yn chwarae.
- **Meysydd chwarae antur:** ardal mynediad agored wedi'i stafffio gan weithwyr chwarae hyfforddedig, lle y gall plant ddod o hyd i ddeunyddiau a chymorth i ddatblygu ac addasu eu hardal chwarae eu hunain i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- Mae'n amgylchedd chwarae da sy'n gwneud iawn am y diffyg mannau naturiol hygyrch sydd ar gael ar hyn o bryd lle y gall plant chwarae yn annibynnol ar oedolion.
- **Prosiect gwaith chwarae peripatetig (ceidwaid chwarae):** Prosiect mynediad agored, byrdymor yn aml, a gaiff ei staffio gan dîm bach o weithwyr chwarae hyfforddedig, sy'n ymweld â man gwahanol, parc, ardal chwarae ar ystad neu fan cyhoeddus arall, unwaith neu ddwywaith yr wythnos am ychydig oriau. Bydd ganddynt syniadau ac offer, a byddant yn gweithio i helpu i ddarparu mannau chwarae i blant yn eu hardal leol, ac i roi tawelwch meddwl i rieni ei bod yn ddiogel i blant chwarae yn yr awyr agored.
- **Gwaith chwarae:** Mae gwaith chwarae yn broffesiwn medrus iawn sy'n cyfoethogi ac yn gwella chwarae plant. Mae oedolion yn cefnogi plant wrth iddynt chwarae ond nid canlyniadau rhagnodedig o ran addysg neu ofal yw symbyliad y chwarae hwnnw.
- **Y gweithlu chwarae:** Mae'n cynnwys unrhyw weithiwr cyflogedig y mae ei rôl yn effeithio ar chwarae plant – pobl sydd naill ai'n hwyluso'r chwarae'n uniongyrchol, yn cynllunio cyfleoedd chwarae, neu sydd â'r grym i ganiatáu i blant chwarae, ai peidio.
- **Gwaith ieuenctid:** Mae gwaith ieuenctid yn ffordd hyfedr iawn o weithio gyda phobl ifanc 11-25 oed wrth iddynt bontio o blentyndod i fyd oedolion. Darperir gwaith ieuenctid mewn amrywiaeth o leoliadau ac mae'n cynnig mannau diogel i bobl ifanc lle gallant ddod i gysylltiad ag oedolion y gellir ymddiried ynddynt, meithrin cydberthnasau â'u cyfoedion, rhoi cynnig ar gyfleoedd newydd a chael eu cefnogi i gyflawni eu potensial.